Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cyfraniad Darpariaeth Gwaith Ieuenctid Awdurdodau Lleol at Strategaeth y Gymraeg

# ADRODDIAD TERFYNOL

Cytundeb: YWS/WL/001

# Cyfraniad Darpariaeth Gwaith Ieuenctid Awdurdodau Lleol at Strategaeth y Gymraeg

Paratowyd a chynhyrchwyd yr adroddiad gan:
Alun Roberts - Maneg Cyf
Marc Roberts – Cynlas Cyf
6[ed] Mai 2016

# Tabl Cynnwys

1. Crynodeb .....1

2. Cyflwyniad .....7

3. Cefndir a Chyd-destun .....8

3.1 Cyd-destun Cyfreithiol .....10
3.2 Cyd-destun Strategol .....11

4. Methodoleg .....27

5. Canfyddiadau'r Ymchwil .....35

5.1 Dadansoddiad o'r Holiaduron .....35
5.2 Adolygiad o Gynlluniau Corfforaethol .....48
5.3 Defnydd o Gyfryngau Digidol .....58

6. Sylwadau a Chanfyddiadau Cyffredinol .....66

7. Argymhellion .....73

8. Atodiad 1 – Holiadur .....79

9. Atodiad 2 – Holiadur Atodol .....87

10. Cyflwyniad .....89

# 1. Crynodeb

## Cefndir a Methodoleg

Mae'r adroddiad hwn yn adolygu cyfraniad y ddarpariaeth bresennol o waith ieuenctid at Strategaeth y Gymraeg ac yn adnabod bylchau.

Mae'r adolygiad wedi golygu cyflawni adolygiad desg o'r Archwiliad Gwaith Ieuenctid (2014-15) a hefyd cynnal nifer o gyfweliadau gyda rheolwyr gwaith ieuenctid ledled Cymru.

Mae'r gwaith wedi ei gwneud yn ofynnol inni hefyd ystyried cyd-destun deddfwriaethol a strategol y ddarpariaeth o Waith Ieuenctid a'i pherthynas â'r Gymraeg. Yn ogystal â'r cyd-destun strategol ehangach, fe wnaethom adolygiad manwl hefyd o gynlluniau corfforaethol pob un o'r Awdurdodau Lleol yr ymynghorwyd â nhw.

Yn olaf, mae hyrwyddo a defnyddio cyfryngau cymdeithasol yn agwedd allweddol o Strategaeth y Gymraeg a'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Gwaith Ieuenctid, ac felly rydym wedi adolygu'r graddau a'r modd y mae'r Awdurdodau Lleol yr ymgynghorwyd â nhw yn defnyddio cyfryngau o'r fath ar gyfer cefnogi a hyrwyddo gwasanaethau ieuenctid.

## Cyd-destun strategol

Mae Gwaith Ieuenctid yng Nghymru ei gadarnhau gan ddeddfwriaeth yn Adran 508 o Ddeddf Addysg 1996 ac mae'n ofyniad statudol. Yn strategol caiff ei yrru gan Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Gwaith Ieuenctid yng Nghymru 2014-18. Fodd bynnag, yng nghyd-destun yr adolygiad hwn, mae Strategaeth y Gymraeg – Iaith fyw: iaith byw (2012-2017) hefyd wedi bod yn ystyriaeth allweddol.

Bydd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 sy'n canolbwyntio ar wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru yn sicr o effeithio ar ddulliau Awdurdodau Lleol o ddarparu gwasanaethau, gan gynnwys Gwasanaethau Ieuenctid.

Nodwn hefyd arwyddocâd posibl y Gweithgor a sefydlwyd i gynghori'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoedd ar y defnydd gorau o'r Gymraeg mewn Gweinyddu Llywodraeth Leol a Datblygu Economaidd. Roedd disgwyl i'r gweithgor hwn adrodd yn ôl at ddiwedd mis Mai eleni.

Y datblygiad diweddaraf, ac efallai'r un mwyaf perthnasol, oedd y Dirprwy Weinidog dros Sgiliau a Thechnoleg yn lansio Siarter Gwaith Ieuenctid newydd ym mis Mawrth 2016, siarter sy'n cael ei gadarnhau gan fframwaith canlyniadau cenedlaethol newydd.

Adolygwyd nifer o adroddiadau a strategaethau eraill perthnasol, ond fel y nodwyd ym mhrif gorff yr adroddiad:

*"... yr hyn sy'n amlwg yw bod y Gwasanaeth Ieuenctid yng Nghymru wedi bod, ac yn dal i fod, yn destun ystyriaeth ac adolygu sylweddol, gan gynnwys ar lefel Gweinidogion."*

Dylid nodi hefyd i'r adroddiad hwn gael ei ysgrifennu yn ystod cyfnod etholiad y Cynulliad (5 Mai), a gall canlyniadau trafodaethau parhaus a datblygu rhaglen lywodraeth newydd arwain at ofynion ychwanegol yn cael eu gosod ar y Gwasanaeth Ieuenctid.

Yn olaf, mae hyn i gyd yn digwydd yn erbyn cefndir o adnoddau sy'n lleihau o hyd yn y sector cyhoeddus, tueddiad sy'n debygol o barhau dros y blynyddoedd nesaf.

Ar gychwyn yr astudiaeth fe wnaethom ddewis 8 Awdurodod Lleol, ar sail cyfuniad o ddadansoddiad o'r Archwiliad Gwaith Ieuenctid (2014-15) a data demograffig. Fe wnaethom ein gorau i sicrhau y byddai'r Awdurdodau Lleol a ddewiswyd yn cynnig sampl cynrychioliadol da o'r amrywiaeth a'r gwahaniaethau gofodol ledled Cymru. Gwahoddwyd pob un o'r Awdurdodau Lleol i gymryd rhan mewn cyfweliad strwythuredig, naill ai ar y ffôn neu wyneb yn wyneb. Fodd bynnag, daeth yn amlwg yn fuan nad oedd y dull hwn o dargedu am gynhyrchu'r sampl angenrheidiol i fodloni'r brîff, ac roedd amseru'r astudiaeth ei hun (pan oedd cysoni cyllidebau a chynllunio cyllidebau yn digwydd) braidd yn anffodus.

Yn y pen draw, roedd rhesymau sylfaenol dros orfod amrywio'r dull ac ymestyn y gwahoddiad i bob un o'r 22 Awdurdod Lleol. Fe wnaeth y dull hwn, wedi ei ategu gan gyfle i gwblhau holiadur ar-lein, arwain at gynnal 9 cyfweliad, a 3 holiadur ar-lein yn cael eu dychwelyd.

## Canfyddiadau'r Ymchwil

Mae ein hymchwil yn awgrymu'r canlynol:

- Yr isaf yw'r dwysedd poblogaeth, y mwyaf anodd yw darparu gwasanaeth cwbl gynhwysfawr a chynhwysol i bob defnyddiwr.
- Mae ardaloedd lle mae'r ganran o siaradwyr Cymraeg yn uwch (40%) yn cyfrannu at Strategaeth y Gymraeg yn naturiol yn hytrach nag ar sail cynllun pendant.
- Mae'r twf a ragwelir mewn grwpiau oedran iau yn y mwyafrif llethol o Awdurdodau lleol yn debygol o osod pwysau ychwanegol ar adnoddau ac ar y gallu i gyflawni.
- Roedd pob un o'r Awdurdodau Lleol y cyfwelwyd â nhw yn wynebu, neu wedi wynebu, toriadau mewn cyllidebau, ac mewn rhai achosion roedd y toriadau hynny'n sylweddol.
- Ychydig iawn o'r Awdurdodau Lleol y cyfwelwyd â nhw sy'n gweithio'n uniongyrchol mewn partneriaeth, ond yn y mwyafrif o achosion mae gweithgareddau ar y cyd a chefnogaeth i drydydd partïon a phrosiectau penodol. Ar hyn o bryd, caiff y mwyafrif o wasanaethau eu darparu'n uniongyrchol gan yr Awdurdod Lleol; fodd bynnag, mae'n harolwg yn awgrymu bod symudiad pendant tuat at weithio mewn partneriaeth.
- Yn y mwyafrif o achosion, roedd yr Awdurdodau Lleol yn cydnabod ac yn sylweddoli bod grantiau dewisol i gael eu defnyddio'n rhannol i gefnogi a hyrwyddo Strategaeth y Gymraeg.
- Mae'r rhwystrau i ddarparu yn rhai amrywiol a chymhleth, gan gynnwys Cyllid, Iechyd Meddwl, Trafnidiaeth a Natur Wledig Ardaloedd, Tlodi a Chynhwysiant, Mynediad Agored, ac agweddau tuag at y Gymraeg.

## Adolygiad o Gynlluniau Corfforaethol

Mae ein hadolygiad o'r naw Awdurdod Lleol a gyfwelwyd yn dangos bod yr amlygrwydd a'r flaenoriaeth a roddir i'r iaith a'r diwylliant Cymraeg yn amrywio'n sylweddol o Gyngor i Gyngor. Yn yr un modd, mae'r sylw a roddir i Wasanaethau Ieuenctid yn amrywio'n helaeth.

Yn fwyaf arwyddocaol, yng nghyd-destun yr adolygiad hwn, ychydig iawn o gydnabyddiaeth a welwn o'r cysylltiad rhwng cefnogi pobl ifanc a hyrwyddo a datblygu'r Gymraeg.

Mae ein hadolygiadau yn awgrymu mai'r prif yrrwr o safbwynt hyrwyddo'r Gymraeg o fewn y Gwasanaeth Ieuenctid yw Polisïau a Chynlluniau'r Awdurdodau Lleol eu hunain ac nid Strategaeth y Gymraeg ynddi'i hun. Mae llawer o Awdurdodau Lleol wedi diweddaru eu Polisïau neu Gynlluniau Iaith Gymraeg i adlewyrchu gofynion Deddf yr Iaith Gymraeg.

## Defnydd o Gyfryngau Digidol

Unwaith eto, mae'r ddarpariaeth yn amrywio o Awdurdod Lleol i Awdurdod Lleol; o safbwynt rhwyddineb mynediad, amlygrwydd a'r manylion a ddarperir. Mae'r sylw a roddir i'r Gymraeg yn anghyson; ac mewn un achos nid yw'r Awdurdod Lleol yn darparu gwybodaeth yn ddwyieithog. Mae rhai ymdrechion i ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol, ond ymddengys fod yn 'docenistaidd' i lawer o Awdurdodau Lleol.

Fodd bynnag y casgliad amlycaf, a'r un sy'n peri mwyaf o bryder, o'n harolwg yw, gydag un eithriad yn unig, nad ymddengys fod dim byd o fewn y deunydd ar-lein a adolygwyd sy'n hyrwyddo'r iaith a'r diwylliant Cymraeg.

## Casgliadau

Mae Gwasanaethau Ieuenctid o dan bwysau sylweddol, a byddant yn dal i wynebu pwysau o'r fath hyd y gellir rhagweld.

Nid oes unrhyw ddata ar gael i gefnogi unrhyw wir werthusiad o hyrwyddo'r iaith a'r diwylliant Cymraeg.

I raddau helaeth mae'r Awdurdodau Lleol yn cynllunio ac yn darparu ar eu pen eu hunain ac ar wahân.

Nid yw strategaethau presennol yn pennu nac yn egluro unrhyw ffurf o ganlyniadau mesuradwy.

Ar lefel gyffredinol, mae'r Gwasanaeth Ieuenctid yn cyfrannu at y Strategaeth. Fodd bynnag, o'r canlyniadau a'r canfyddiadau rydym wedi dod i'r casgliad mai digwydd yn ddamweiniol y mae hyn yn hytrach na thrwy gynllunio.

Os oes gofyniad pendant ar y gyllid Llywodraeth Cymru gyfrannu at Strategaeth y Gymraeg; yna nid yw'n cael ei deall na'i gwerthfawrogi gan y mwyafrif o Awdurdodau Lleol yr ymgynghorwyd â nhw.

Y prif yrrwr o ran hyrwyddo'r Gymraeg yw'r Polisïau Iaith Gymraeg yr Awdurdodau Lleol eu hunain.

Ymddengys fod y defnydd o gyfryngau digidol yn anghyson ac yn dameidiog, ac mewn rhai achosion yn ddryslyd.

Gall dylanwad tymor canol i hirdymor Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Siarter Gwaith Ieuenctid newydd arwain at newid sylfaenol ar lefel gorfforaethol ac wrth gyflwyno gwasanaethau.

## Argymhellion

- Sianeli cyfathrebu clir, canllawiau a chymorth gan Lywodraeth Cymru o ran y berthnas rhwng yr amrywiol Strategaethau ac yn enwedig o ran Gwasanaethau Ieuenctid a Strategaeth y Gymraeg.

- Adnabod a chyfleu camau gweithredu clir a 'SMART' y gellir eu cyflawni a'u mesur.

- Gwahanu'r Grant Gwaith Ieuenctid oddi wrth ddyraniad y Grant Cynnal Refeniw ac ymdrin ag ef mewn ffrwd ariannu gwahanol ac ar wahân i gefnogi'n uniongyrchol weithgareddau sy'n ymwneud â'r Strategaeth Ieuenctid.

- Fframwaith mwy trylwyr ar gyfer casglu data ac allbynnau sy'n ymwneud â'r Gymraeg a Gwaith Ieuenctid. Gellid cyflawni hyn trwy ychwanegu at ddata sy'n cael ei gasglu ar gyfer yr Archwiliad Gwaith Ieuenctid.

- Camau gweithredu i wella hyfforddiant a datblygiad Gweithwyr Ieuenctid.

- Defnydd gwell a mwy cyson o Gyfryngau Digidol.

- Yn y tymor hirach ystyried brand cenedlaethol i'r gwasanaeth a dull cyson o'i gyflwyno.

- Gwell cydweithredu a pherthynas waith agosach rhwng awdurdodau cyfagos a sefydliadau gwirfoddol a sefydliadau trydydd sector eraill wrth gynllunio a chyflwyno gwasanaethau ieuenctid.

## 2. Cyflwyniad

Roedd y brîff ar gyfer yr astudiaeth yn gofyn am adolygiad o gyfraniad darpariaeth gwaith ieuenctid at Strategaeth y Gymraeg ac am adnabod bylchau.

Roedd hefyd yn cynnwys adolygiad o weithio mewn partneriaeth â sefydliadau trydydd sector, a lefel ymwneud/cyfraniad plant a phobl ifanc.

Rhan o hyn oedd y gofyniad i gyflawni adolygiad desg o'r Archwiliad Gwaith Ieuenctid (2014-15) i'w ategu â chyfweliadau gydag o leiaf 8 uwch-reolwr gwaith ieuenctid o fewn Awdurdodau Lleol gydag o leiaf un awdurdod lle mae'r Gymraeg yn allweddol yn y gwaith.

Oherwydd natur amrywiol ac aml-haenog y gwasanaeth, a phwysau sylweddol a chynyddol ar gyllid ac adnoddau i ddiwallu angen sy'n newid ac yn cynyddu'n barhaus ymysg poblogaeth iau Cymru, roedd angen i'r dasg gael ei chynllunio a'i rheoli'n ofalus iawn. Roedd angen canolbwyntio'n barhaus ar wir ofynion y brîff – sef ystyried un agwedd benodol o'r gwasanaeth, a hynny oedd cyfraniad y gwasanaeth tuag at Strategaeth y Gymraeg.

Wrth gyflawni'r gwaith, fodd bynnag, rhaid cydnabod bod yn rhaid cael sail gyd-destunol, ac felly y fethodoleg a ddefnyddiwyd oedd un o geisio casglu gwybodaeth a fyddai'n ddilys ac yn berthnasol i ofynion y brîff ond gan sicrhau hefyd y byddai'r canfyddiadau a'r sylwadau, ac y gellid gwneud unrhyw argymhelliad, o fewn cyd-destun y gwasanaeth fel cyfanrwydd.


## 3. Cefndir a Chyd-destun

Ar lefel gwbl ymarferol, boed yn ffurfiol neu'n anffurfiol, yn broffesiynol neu'n bersonol, mae'r Gymraeg yn effeithio ar fywydau pob dydd pawb yng Nghymru.

Yn wir, boed pobl yn siarad Cymraeg neu beidio, mae'r iaith yn cyfrannu at eu Cymreictod o ran eu ffordd o siarad, eu hymddygiad, eu gwerthoedd a'u gweithredoedd. Mae hyn boed ni yng Nghymru neu beidio, boed ni wedi'n geni yng Nghymru neu beidio, boed ein rheini'n Gymry neu beidio, a boed ni'n siarad yr iaith neu beidio. Nid yw bod yn Gymry yn ymwneud ag iaith yn unig ond yn hytrach â chymysgedd gymhleth o ffactorau; gyda'r iaith ei hun yn un yn unig o lawer o ffactorau cymhleth o'r fath.

Yng nghyd-destun Gwasanaethau Ieuenctid, gellid dadlau bod hyn, ac y dylai fod, yn nodwedd allweddol, gan fod perthynas bersonol yn cael ei sefydlu a'i chynnal rhwng y darparwr a'r cwsmer. Bydd perthynas o'r fath yn naturiol yn ymwneud â chyfnewid manylion personol, amgylchiadau personol, dyheadau a nodau, ac agwedd bwysig ohoni yw'r sail y mae'n ei gosod ar gyfer cyfathrebu.

Mae'r map canlynol yn dangos y defnydd o'r Gymraeg yng Nghymru fel yr adroddwyd yn yr Adroddiad ar y Defnydd o'r Gymraeg yng Nghymru (2013-2015) a baratowyd gan Gomisiynydd y Gymraeg/Ystadegau ar gyfer Cymru.


YNYS MÔN
CONWY
SIR Y FFLINT
SIR DDINBYCH
WRECSAM
GWYNEDD
Canran y siaradwyr Cymraeg sydd yn rhugl
Llai na 15 y cant
Rhwng 15 y cant a 30 y cant
Rhwng 30 y cant a 45 y cant
Rhwng 45 y cant a 60 y cant
Dros 60 y cant
Ffynhonnell: Arolwg Defnydd Iaith, 2013-15
POWYS
CEREDIGION
SIR BENFRO
SIR GAERFYRDDIN
MERTHYR TUDFUL
BLAENAU GWENT
SIR FYNWY
TORFAEN
CASTELL-NEDD PORT TALBOT
ABERTAWE
RHONDDA CYNON TAF
CAERFFILI
CASNEWYDD
PEN-Y-BONT AR OGWR
CAERDYDD
BRO MORGANNWG
Ffin Awdurdod Lleol
Tachwedd 2015
OGL

Mae'r Adroddiad yn adolygiad ac asesiad cynhwysfawr o'r defnydd dyddiol o'r Gymraeg o fewn Cymru ac mae'n tynnu sylw at amryw o ffactorau diddorol iawn sy'n berthnasol i gyd-destun yr astudiaeth benodol hon.

- Mae'r crynodiad uchaf o siaradwyr Cymraeg sy'n siarad Cymraeg bob dydd i'w gael mewn awdurdodau lleol yng ngorllewin Cymru.
- Roedd cynnydd sylweddol yn y nifer o bobl sy'n siarad Cymraeg bob dydd yn ne-ddwyrain Cymru, yn enwedig Caerdydd
- Mae siaradwyr Cymraeg hŷn yn fwy tebygol na rhai iau i deimlo'n fwy cysurus yn defnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd pob dydd
- Mae siaradwyr Cymraeg ifanc yn fwy tebygol o fod wedi dysgu siarad Cymraeg yn yr ysgol nag yn unlle arall
- Mae pobl ifanc yn fwy tebygol o siarad Cymraeg yn yr ysgol na gyda ffrindiau neu gartref
- Mae siaradwyr Cymraeg ifanc yr un mor debygol o ddefnyddio cymaint o Gymraeg â Saesneg wrth ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol ac yn enwedig felly wrth anfon negeseuon testun

## 3.1 Cyd-destun Cyfreithiol

Caiff Gwaith Ieuenctid yng Nghymru ei gynnal gan ddeddfwriaeth a gynhwysir yn Adran 508 o Ddeddf Addysg 1996 ac mae'n ofyniad statudol.

Diffiniad - … *mae gofyniad statudol (o dan Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000) yn dal i fod ar awdurdod lleol i ddarparu neu sicrhau gwasanaeth cymorth ieuenctid. Yn ogystal, mae Cyfarwyddiadau a Chanllawiau Ymestyn Hawliau yn datgan bod y Cyfarwyddiadau yn gosod, am y tro cyntaf, sail statudol i'r Gwasanaeth Ieuenctid yng Nghymru (tudalen 25) a'r Nodyn Esboniadol (amgaeedig) i Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 yn datgan mai "Adran 508 o Ddeddf Addysg 1996 ... yw'r sail statudol ar gyfer y gwasanaeth ieuenctid a ddarperir gan awdurdodau lleol ... (i) ddarparu amrywiaeth o wasanaethau gan gynnwys clybiau ieuenctid, canolfannau gwybodaeth a chanolfannau arbenigol".*

*Nodiadau Esboniadol i Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000*

*Adran 23. Mae Adran 508 o Ddeddf Addysg 1996 yn datgan ei bod yn ddyletswydd ar bob Awdurdod Addysg Lleol i sicrhau bod addysg bellach a ddarperir yn eu hardal yn cynnwys cyfleusterau digonol ar gyfer hamdden a hyffordiant cymdeithasol a chorfforol. I'r diben hwnnw, gall awdurdod sefydlu, cynnal a rheoli cyfleusterau fel caeau chwarae, campfeydd a phyllau nofio, a gall drefnu neu gynorthwyo mewn teithiau a gweithgareddau eraill i bobl y mae arnynt y ddyletswydd i sicrhau addysg bellach. Yr adran yw sail statudol y gwasanaeth ieuenctid a ddarperir gan awdurdodau lleol. Mae'r gwasanaeth ieuenctid yn darparu amrywiaeth o wasanaethau gan gynnwys clybiau ieuenctid, canolfannau gwybodaeth a chanolfannau arbenigol ac mae'n gweithio'n gynyddol gyda phobl ifanc mewn perygl.*

## 3.2 Cyd-destun Strategol

Y brif ddogfen sy'n rhoi cyfarwyddyd ar gyfer gwaith ieuenctid yng Nghymru yw'r **Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Gwaith Ieuenctid yng Nghymru (2014-2018).**

Rhan allweddol o'r Strategaeth yw cydnabyddiaeth o werth a rôl darpariaeth mynediad agored o waith ieuenctid, sy'n hyrwyddo cysylltiad cryfach rhwng darpariaeth gwaith ieuenctid ac addysg ffurfiol, gan adnabod yr angen am berthynas waith agosach rhwng yr elfennau statudol a gwirfoddol ac, yn hanfodol, cryfhau'n sylweddol y sail dystiolaeth o effaith gwaith ieuenctid ledled Cymru.

Mae'r Strategaeth yn tynnu sylw at bedwar canlyniad allweddol y mae'r Gweinidogion yn gobeithio amdanynt; ein dealltwriaeth ni ar hyn o bryd yw na fyddant yn cael eu mesur.

- Y cyntaf yw sicrhau mynediad at amrywiol gyfleoedd dysgu ffurfiol ac anffurfiol. Er mwyn cyflawni hyn mae'r Strategaeth yn datgan bod angen i ddarparwyr statudol a gwirfoddol godi eu cydweithio i lefelau newydd, gan ddefnyddio adnoddau cyfyngedig i sicrhau'r effaith mwyaf bosibl a chyflwyno cynnig ystyrlon o ansawdd uchel i bobl ifanc.
- Yr ail ganlyniad yw cryfhau'r berthynas strategol rhwng sefydliadau gwaith ieuenctid ac addysg ffurfiol ar lefel genedlaethol.
- Y trydydd canlyniad yw gwaith ieuenctid sy'n fwy cyson ac wedi'i gydlynu'n well yn cael ei gynnig i bobl ifanc gan sefydliadau gwaith ieuenctid o fewn y sector statudol a'r sector gwirfoddol. Mae'r Strategaeth yn hyrwyddo gweithgareddau a fydd yn cryfhau adeiladu cynhwysedd, gweithio mewn partneriaeth a chydweithio rhwng y darparwyr gwirfoddol a statudol.
- Y pedwerydd canlyniad yw gofyniad i sicrhau sail dystiolaeth ddibynadwy sy'n dangos canlyniadau ac effaith darpariaeth gwaith ieuenctid. Bernir bod hyn yn angenrheidiol er mwyn atgyfnerthu safle strategol y sector, ac mae'n bwysig er mwyn arwain penderfyniadau ar fuddsoddi yn y dyfodol.

Mae'r Strategaeth yn mynd ymlaen i adnabod canlyniadau strategol ar gyfer darpariaeth gwaith ieuenctid yng Nghymru –

- Mae darpariaeth gwaith ieuenctid ar gael yn hawdd i bob person ifanc yng Nghymru
- Defnyddir Mynediad Agored yn effeithiol i gynnwys pobl ifanc ac i roi cyfeiriad iddynt
- Mae gwaith ieuenctid yn rhyngweithio'n effeithiol gyda darparwyr addysg ffurfiol i gefnogi canlyniadau cadarnhaol
- Mae gwaith ieuenctid statudol a gwirfoddol wedi ei gysoni ac yn cael ei gyflwyno i bobl ifanc fel cynnig ystyrlon
- Mae darpariaeth gwaith ieuenctid yn cyfrannu'n strategol at Strategaeth y Gymraeg
- Mae gwaith ieuenctid yn dangos sut y mae'n cefnogi blaenoriaethau traws-lywodraethol

Rhywbeth sy'n berthnasol i'r astudiaeth hon yw bod y Strategaeth yn cyfeirio at 'Ariannu Gwaith Ieuenctid yng Nghymru' lle mae'n nodi bod y rhan fwyaf o'r cyllid yn dod ar gael trwy'r Grant Cynnal Refeniw. Ffrwd gyllid nad yw wedi'i neilltuo yw hon ac felly gan yr awdurdod lleol ei hun y mae'r penderfyniad terfynol ynghylch sut y caiff ei defnyddio i gyflwyno gwasanaethau lleol.

Mae'n mynd ymlaen i ddweud y bydd grantiau Llywodraeth Cymru'n parhau i fod ar gael drwy oes y Strategaeth, na fydd cyllid grant o'r fath yn cael ei ddarparu i wrthbwyso nac i gymryd lle cyllid Grant Cynnal Refeniw, ond yn hytrach y dylai gael ei ddefnyddio i adeiladu cynhwysedd, hyrwyddo canlyniadau o ansawdd uchel, a chefnogi datblygiad o gynnig mwy cyson i bobl ifanc ledled Cymru.

*Sylwadau*

*Er bod cyfeiriad clir at waith ieuenctid yng Nghymru yn cyfrannu tuag at Strategaeth y Gymraeg, ychydig iawn a geir o fanylion sy'n mynd ymlaen i esbonio sut yn hollol mae cyflawni, nac yn wir mesur, hyn.*

*Yn ogystal, gan fod cyllid yn cael ei ddarparu trwy'r Grant Cynnal Refeniw, nid oes unrhyw warant sicr y bydd cyllid a ddarperir i awdurdodau unigol yn cael ei ddyrannu'n uniongyrchol i Wasanaethau Ieuenctid.*

## Strategaeth y Gymraeg – Iaith fyw: iaith byw (2012-2017)

Mae'r Strategaeth uchod wedi cael ei pharatoi yn unol ag Adran 78 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ac mae'n disodli Iaith Pawb: Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwyieithog 2003.

Sonir am weledigaeth Strategaeth y Gymraeg fel un sy'n gweld y Gymraeg yn ffynnu yng Nghymru gyda Llywodraeth Cymru'n cymryd arweiniad wrth wireddu'r weledigaeth honno trwy gryfhau'r defnydd o'r Gymraeg mewn bywyd pob dydd.

O fewn oes y Strategaeth, nodir yr amcanion canlynol fel rhai pwysig iawn wrth wireddu'r weledigaeth –

- Cynnydd yn y nifer o bobl sy'n gallu siarad yr iaith ac yn ei defnyddio
- Mwy o gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg
- Cynnydd yn hyder pobl yn eu rhuglder yn yr iaith
- Cynnydd yn ymwybyddiaeth pobl o werth y Gymraeg, fel rhan o'n treftadaeth genedlaethol ac fel sgil ddefnyddiol mewn bywyd
- Cryfhau sefyllfa'r Gymraeg yn ein cymunedau
- Cynrychioliaeth gref o'r Gymraeg drwy'r holl gyfryngau digidol.

Mae'r Strategaeth yn mynd ymlaen i nodi chwe phrif nod -

- Annog a chefnogi'r defnydd o'r Gymraeg o fewn teuluoedd
- Cynyddu'r ddarpariaeth o weithgareddau Cymraeg ar gyfer plant a phobl ifanc a chynyddu eu hymwybyddiaeth o werth yr iaith
- Cryfhau safle'r Gymraeg o fewn y gymuned
- Cynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle
- Cynyddu a gwella gwasanaethau Cymraeg i ddinasyddion
- Cryfhau'r seilwaith ar gyfer yr iaith, gan gynnwys technoleg ddigidol.

Mae'r chwe phrif nod uchod yn cael eu cadarnhau ag adolygiad o weithgareddau yn y gorffennol ac mae'r canlynol yn berthnasol iawn o safbwynt yr astudiaeth benodol hon -

- Er mwyn i unigolyn gynnal ei allu i siarad unrhyw iaith gall fod yn angenrheidiol i'r iaith honno fod o'i gwmpas yn barhaus ar hyd ei oes

- Y boblogaeth sydd mewn mwyaf o berygl o gefnu ar y Gymraeg yw teuluoedd gydag un rhiant/gofalwr sy'n siarad Cymraeg, ac mae statws ganfyddedig yr iaith yn y gymuned yn effeithio ar agweddau rhieni/gofalwyr tuag at defnyddio'r iaith

- Mae iaith 'cymuned' plentyn o siaradwyr, sy'n cynnwys rhieni/gofalwyr, nain a thaid, brodyr a chwiorydd, athrawon a'r ysgol, yn dylanwadu ar yr iaith a siaredir gan y plentyn. Mae cydberthynas agos rhwng iaith rhyngweithio gyda ffrindiau a'r iaith y mae'r plentyn yn ei siarad, ac mae'n ddylanwadol yn agweddau plant tuag at y naill iaith neu'r ddwy.

- Caiff blynyddoedd cynnar a'r arddegau eu gweld fel cyfnod allweddol wrth ddatblygu ymddygiad cadarnhaol tuag at iaith leiafrifol ac wrth benderfynu a gaiff yr iaith ei chynnal a'i throsglwyddo. Fodd bynnag, nid yw dysgu a siarad Cymraeg yn yr ysgol yn ddigon ynddo'i hun; mae angen i'r iaith gael ei defnyddio a'i chefnogi yn y cartref (os yw'n bosibl) a thrwy weithgareddau cymdeithasol a diwylliannol ehanach.

- Canfuwyd mai diffyg hyder oedd un o'r prif rwystrau i staff rhag defnyddio'u sgiliau Cymraeg yn y gwaith. Ymddengys fod hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith yn ffordd lwyddiannus o gynyddu agweddau cadarnhaol tuag at y Gymraeg ymysg staff.

- Ychydig o dystiolaeth amlwg sydd fod darparu gwasanaethau mewn ieithoedd lleiafrifol yn cynyddu statws neu ddefnydd iaith. Fodd bynnag, mae corff o dystiolaeth sy'n dangos na fydd ieithoedd yn ffynnu os nad oes cyfleoedd i'w defnyddio yn holl gylchoedd bywyd.

- Mae ymchwil yn awgrymu canolbwyntio marchnata'r Gymraeg a dulliau hyrwyddo ar grwpiau oedran iau; gwella hygyrchedd a pherthnasedd cyfryngau ac adnoddau Gymraeg sydd ar gael; a manteisio i'r eithaf ar dechnoleg fel y rhyngrwyd a chyfryngau cymdeithasol newydd.

Er mai'r ddwy Strategaeth uchod yw'r prif yrwyr o safbwynt y Gymraeg a Gwaith Ieuenctid, mae Polisïau, Cyhoeddiadau, Ymgyngoriadau a Strategaethau eraill sydd hefyd angen eu hystyried yng nghyd-destun yr astudiaeth hon.


Mae'n ddiddorol nodi bod y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus ym mis Rhagfyr 2015 wedi sefydlu Gweithgor i gynghori ar y defnydd gorau o'r Gymraeg mewn Gweinyddu Llywodraeth Leol a Datblygu Economaidd. Disgwylir i'r Gweithgor hwn adrodd yn ôl i'r Gweinidog yn hwyr ym mis Mai eleni.

Er bod y brîff ar gyfer y Gweithgor yn ymwneud yn bennaf â thaith Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) a Diwygio Llywodraeth Leol, mae gofyniad penodol i'r Grŵp *"... adnabod arferion da mewn Llywodraeth Leol a all helpu cymunedau Cymraeg i ffynnu, yn enwedig sut y gall Llywodraeth Leol gefnogi'r iaith Gymraeg o fewn gwead y gymuned trwy ei swyddogaethau datblygu economaidd."*

Mae **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** yn gysylltiedig i raddau â'r ystyriaeth holistig hon o'r Gymraeg o safbwynt cymunedau lleol a datblygu economaidd.

Mae'r Ddeddf hon yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol yng Nghymru. Ei phrif amcanion yw sicrhau bod Cyrff Cyhoeddus yn meddwl mwy am yr hirdymor, yn gweithio'n well gyda phobl a chymunedau a gyda'i gilydd, yn ceisio atal problemau ac yn gweithio mewn ffordd fwy cydlynol.

Mae'r Ddeddf wedi ei seilio ar 7 colofn; a ddangosir yn y diagram isod:



Mae'r Ddeddf yn cyfeirio'n benodol at Ddangosyddion Cenedlaethol a Cherrig Milltir ac mae'n diffinio dangosydd fel un –

(a) y mae'n rhaid ei fynegi fel gwerth neu nodwedd y gellir ei fesur yn feintiol neu'n ansoddol yn erbyn canlyniad penodol
(b) y gellir ei fesur dros y fath gyfnod o amser y mae Gweinidogion Cymru'n barnu sy'n addas
(c) y gellir ei fesur mewn perthynas â Chymru neu unrhyw ran o Gymru.

Mae'r saith maes hyn y canolbwyntir arnynt yn berthnasol i amrywiol raddau i'r adolygiad hwn; ond maent i gyd yn haeddu rhywfaint o sylw, ac mae gan rai arwyddocâd dwfn o safbwynt yr iaith, cefnogi'n hieuenctid, a dathlu amrywiaeth a diwylliant.

Mae ein hadolygiad o gynlluniau corfforaethol a strategaethau naw o Awdurdodau Lleol wedi dangos bod y rheini a gyhoeddwyd yn union cyn y statud neu ar ei hôl yn gosod pwyslais mawr ar egwyddorion Cenedlaethau'r Dyfodol. O ganlyniad, mae'r pwyslais ar yr iaith Gymraeg a Diwylliant Cymraeg yn fwy amlwg nag yn yr ardaloedd eraill llai Cymraeg eu haith y mae eu cynlluniau corfforaethol yn deillio o gyfnod cyn y Ddeddf.

Wedi dweud hynny, nid ydym wedi gallu cael hyd i unrhyw wybodaeth o fewn unrhyw Gynlluniau Corfforaethol sy'n ymwneud yn uniongyrchol â dangosyddion adnabyddadwy.

Yn yr ystyr hwnnw, gan fod cynlluniau corfforaethol yn cael eu diweddaru a'r angen statudol i ystyried pob un o'r saith egwyddor, mae'n ddigon posibl y gwelwn newid sylweddol yn agwedd gorfforaethol pob Awdurdod Lleol tuag at yr iaith a'r diwylliant Cymraeg, a Gwasanaethau Ieuenctid.

Yn fwy diweddar ym mis Mawrth 2016 fe wnaeth y Dirprwy Weinidog dros Sgiliau a Thechnoleg lansio'r Siarter Gwaith Ieuenctid newydd.

Mae'r Siarter o arwyddocâd i'r hyn y mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio arno, a nodir yr elfennau pwysicaf isod:

## Siarter Gwaith Ieuenctid Cymru

Bydd gan bob person ifanc hawl i gael mynediad rhwydd trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg at:

- Fannau cyfarfod diogel, cynnes a chyflawn, sy'n cynnig cyfleoedd i ddatblygu perthnasoedd parhaus, gweithgareddau hamdden cyffrous ym meysydd celf a chwaraeon, a phrofiadau newydd a fydd yn ehangu eu gorwelion.
- Cyfleoedd i gyfranogi mewn antur awyr agored a phrofiadau preswyl a rhyngwladol.
- Cyfleoedd i gyfranogi yn y gwaith o wneud penderfyniadau trwy strwythurau anffurfiol a ffurfiol i ymgysylltu â phobl ifanc yn lleol ac yn genedlaethol.
- Gwybodaeth, arweiniad a chymorth ynghylch materion sy'n eu pryderu, yn cynnwys cyflogaeth, tai a lles meddyliol. Gellir defnyddio'r gwasanaeth trwy gyfrwng cyfryngau digidol a thrwy law oedolion dibynadwy a hyfforddedig.
- Anogaeth i ddysgu rhagor am eu diwylliant eu hunain a diwylliannau pobl eraill.
- Darpariaeth gydgysylltiedig gan weithwyr ieuenctid ym mhob ysgol uwchradd a choleg, ymestyn y 'cynnig i ddisgyblion' ac felly cyfoethogi'r cwricwlwm ffurfiol a chynorthwyo â datblygiad personol a chymdeithasol.
- Cyfleoedd i fod yn ymgyrchwyr dinesig e.e. trwy wirfoddoli.
- Cydnabod a /neu achredu eu cyflawniadau o ran datblygiad personol a chymdeithasol mewn ysgolion a cholegau ac yn y gymuned hefyd.

Yn gydamserol â hyn, mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi comisiynu dogfen ymgynghori ar gyfer fframwaith canlyniadau, **Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol ar gyfer Gwaith Ieuenctid.** Mae'r fframwaith wedi ei osod yn erbyn y Siarter a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn nodi cynigion y Gweinidog am fframwaith canlyniadau.

Bwriad y fframwaith canlyniadau a awgrymir yw helpu sefydliadau gwaith ieuenctid wrth gynllunio a gwerthuso.

Mae'r siart canlyniadau'n adlewyrchu'r hyn sydd angen ei warantu ar lefel gwasanaeth cyfan i gefnogi Siarter Gwaith Ieuenctid Cymru ac mae wedi'i lunio asesu'r graddau y mae gwaith ieuenctid ar gael a'i ansawdd mewn gwahanol ardaloedd.

Nodir y Siarter isod::

| | Swyddogaeth | Dangosydd | Dangosir gwybodaeth gan | Ffynhonnell | Cyfraniad at Ddangosyddion Llesiant Cenedlaethol |
|---|---|---|---|---|---|
| Pob ysgol uwchradd | Cyfraniad at Addysg Bersonol a Chymdeithasol a phrofiadau addysg eraill gan weithwyr ieuenctid | % o ysgolion sy'n cymryd rhan | Ysgolion/gweithwyr ieuenctid – ar natur y gwaith ieuenctid a ddarperir ac ar ba themâu ee iechyd rhywiol, llesiant meddyliol a chanlyniadau<br>Ee presenoldeb, y defnydd o'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu | Estyn / hunan-asesu gan weithwyr ieuenctid / archwiliad gwaith ieuenctid | 05,06,<br>07,22 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Pob ysgol uwchradd a choleg | Defnydd o gyfleusterau chwaraeon/ celfyddydau gan unedau ieuenctid | % o ysgolion/ colegau sy'n trefnu bod y cyfleuster ar gael | Ysgolion / colegau / Gwasanaethau Ieuenctid | Hunan-asesu gan weithwyr ieuenctid / archwiliad gwaith ieuenctid | 15,16,19,25<br>,27 |
| Mannau cyfarfod ac amrywiol gyfloedd gan gynnwys trwy gyfrwng y Gymraeg.<br>Antur awyr agored.<br>Profiadau rhyngwladol. | Amrywiaeth o gyfleusterau ledled Cymru yn hyrwyddo datblygiad personol a chymdeithasol | Nifer o leoedd a lleoliadau. Y nifer o bobl ifanc sy'n mynychu ac yn cymryd rhan.<br>Niferoedd a % o'r cohort oedran. | Adroddiadau gan Awdurdodau Lleol a sefydliadau perthnasol | Adroddiadau archwilio blynyddol. Archwiliad Llywodraeth Cymru.<br>Adroddiadau Estyn ar ansawdd a digonolrwydd. | 20, 21,26 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Cydnabod / Achredu llwyddiannau | Cydnabod ac, os yw'n addas, achredu datblygiad personol a chymdeithasol pobl ifanc | Nifer a lefel y gwobrau cenedlaethol a lleol a enillwyd ee Dug Caeredig, ASDAN, Queen's Guide | Adroddiadau gan gyrff/sefydliadau dyfarnu | Archwiliad gwaith ieuenctid | 05,06,09 |

Ar y pwynt hwn, nid yw'r iaith a'r diwylliant Cymraeg mor amlwg â hynny o fewn y Siarter, o safbwynt gweithgareddau, swyddogaethau, na dangosyddion.

Gofynnir am sylwadau ac adborth hyd at 9fed Mehefin, ac efallai bydd ychwanegiadau i'r Siarter hwn a fydd yn fwy perthnasol i brif gynnwys yr adolygiad hwn.

Wrth gyfeirio'n benodol at yr iaith Gymraeg ei hun, o fis Mawrth eleni mae'n ofynnol i bob awdurdod lleol (ac yn wir pob gwasanaeth cyhoeddus) gyrraedd **Safonau'r Gymraeg.**

Nod y Safonau yw sicrhau bod gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg ar gael ledled Cymru ac i safon gyson. Mae'r Safonau yn ei gwneud yn ofynnol hefyd i gyrff cyhoeddus sicrhau bod gan siaradwyr Cymraeg hawl i gael at pob gwasanaeth yn yr iaith o'u dewis.

Gellir rhannu'r Safonau'n bedwar prif grŵp, sef Cyflenwi Gwasanaethau, Llunio Polisi, Gweithredu a Chadw Cofnodion.

Mae'n amlwg fod safonau o'r fath yn effeithio ar Wasanaethau Ieuenctid ac yn arbennig felly o ran Cyflenwi Gwasanaethu yn yr ystyr y bydd angen i'r cyswllt personol rhwng staff a gyflogir o fewn y gwasanaeth a'r bobl ifanc eu hunain gyrraedd gofynion y Safonau.

Mae nifer o awdurdodau lleol eisoes wedi cyhoeddi datganiad sy'n nodi sut y maent yn cyrraedd y Safonau Iaith yn gorfforaethol.

Yn olaf, ac er nad yw'n uniongyrchol gysylltiedig â chwmpas a diben yr astudiaeth benodol hon fel y cyfryw, cyfeiriwn at rannau o Bapur a baratowyd gan Tom Wylie ym mis Mawrth 2016 ac iddo'r teitl **Datblygu Gwaith Ieuenctid yng Nghymru** sy'n nodi nifer o bwyntiau allweddol.

## Gwendidau presennol

Nid yw mynediad pobl ifanc at weithgareddau a gwasanaethau cymorth o ansawdd uchel a'r cyfleoedd hynny a wnaiff eu grymuso fel unigolion a dinasyddion yn gyson dda ledled y wlad. Yn rhannol, mae'r mynediad amrywiol hwn yn ganlyniad i natur wledig, cost cludiant a thlodi teuluoedd, ond mae ffactorau eraill yn bodoli hefyd:

- Mae'r Ddeddf Dysgu a Sgiliau yn oddefol, ac yn sgil absenoldeb disgwyliadau cenedlaethol neu safonau diffiniedig, mae hyn wedi arwain

at anghysondeb yn y ddarpariaeth i bobl ifanc, o ran amrywiaeth, cyfanswm ac ansawdd. Mae llawer o adeiladau gwaith ieuenctid yn wael ac yn anatyniadol.

- Mae'r diffyg eglurder ynghylch y canlyniadau a ddymunir ar gyfer pobl ifanc wedi golygu fod y sylfaen tystiolaeth ar gyfer buddsoddi yn wan. Anaml iawn y caiff prototeipiau o arferion da eu cydnabod a'u datblygu ymhellach. Mae cyfeiriadau mewn mentrau polisi at gyfraniad posibl gwaith ieuenctid tuag at gyflawni nodau ehangach, er enghraifft, gyda theuluoedd neu mewn cymunedau, yn brin.

- Mae cyflawni'r Grant Cynnal Refeniw (RSG) mewn awdurdodau lleol wedi arwain at wahaniaethau sylweddol mewn gwariant, sydd ymhell tu hwnt i'r hyn a ellir ei egluro fel disgresiwn rhesymol i ddiwallu anghenion lleol. Mae amrediad gwariant awdurdodau lleol ar waith ieuenctid yn amrywio o 113% i 38% o ffigur dangosol y Grant Cynnal Refeniw, ac roedd yr archwiliad diweddar (2014-15) yn dangos fod gan y rhan fwyaf o awdurdodau lleol 'gyllideb [gwaith ieuenctid] graidd oedd yn llai' na'u ffigur dangosol.

- Nid yw sail arian y sector yn rhy ddibynnol ar ffynonellau'r llywodraeth (nid RSG yn llwyr). Bydd rhai cyrff gwirfoddol yn llwyddo i gael dim ond mynediad cyfyngedig at gyllid arall, ac felly mae perygl iddynt ddod yn ddibynnol ar incwm grantiau. Mae eraill, fodd bynnag, yn cyfleu eu hunain yn graff ac maent yn llwyddiannus o ran sicrhau arian gan fusnesau a sefydliadau. Pan fydd perthnasoedd yn dda, byddant yn ategu rôl awdurdodau lleol a chaiff dyblygu ei osgoi. Mae partneriaethau lleol rhwng awdurdodau a'r sector gwirfoddol wedi dirywio i raddau, ac felly ni allant sicrhau eu bod yn cynnig darpariaeth gydgysylltiedig a chyson.

- Mae perthnasoedd ag ysgolion a cholegau yn dameidiog, ac ni all rhai pobl ifanc fforddio i elwa o'r cyfleoedd allgyrsiol sydd ar gael i'w

cyfoedion cyfoethocach. Mewn rhai mannau, mae gwaith ieuenctid yn gwneud cyfraniad pwysig at weithredu'r fframwaith ymgysylltu a datblygu. Fodd bynnag, nid yw potensial gwaith ieuenctid i gyfrannu at addysg wedi cael ei wireddu'n llawn. Ar hyn o bryd, mae Estyn yn canolbwyntio ei waith ar ysgolion, ac nid yw bellach yn cynnig trosolwg awdurdodol o ddarpariaeth gwaith ieuenctid fel sail i atebolrwydd.

- Ni cheisir safbwyntiau pobl ifanc yn gyson ac ni weithredir yn gyson mewn ymateb iddynt; mae'r diffyg ymgynghori systematig hwn yn golygu y gallai gwasanaethau presennol bellach fod yn annigonol i ddiwallu anghenion cyfnewidiol, ac ni chaiff y bobl ifanc eu cynorthwyo i fod yn ddinasyddion gweithgar, democrataidd.

- Mae angen i unrhyw gynnig adlewyrchu gwerthoedd ac ymagweddau gwaith ieuenctid (er enghraifft, fel sydd wedi'i amlinellu ym mhapur WLGA, 'Gwaith Ieuenctid yng Nghymru: Egwyddorion a Phwrpas' yn 2013). Mae'n rhaid iddo fod yn realistig, ac yn ystyriol o allu a sgiliau'r bobl sy'n cyfranogi - amser llawn, rhan amser a gwirfoddol - a lefel cyffredinol yr adnoddau sy'n debygol o fod ar gael: ar hyn o bryd, mae gwariant gan awdurdodau lleol yn gyfystyr ag ychydig dros £2 y pen o'u poblogaeth 11-19 mlwydd oed bob wythnos.

- Rhaid i unrhyw gyfraniad adlewyrchu anghenion a diddordebau newidiol pobl ifanc a'u galluogi i ddewis y lleoliadau a'r gweithgareddau sy'n ennyn eu diddordeb, yn ogystal â'u hannog i fynd tu hwnt i ffiniau eu cymdogaethau eu hunain, sy'n gallu eu rhwystro ar brydiau.

- Gan mai ysgolion yw'r gwasanaeth cyffredinol i bobl ifanc, dylai gwaith ieuenctid anelu at rôl sy'n ategu rôl ysgolion, gan gysylltu â 'chynnig i ddisgyblion' newydd y cwricwlwm, a chyfoethogi'r hyn a gynigir yn y dosbarth a meithrin cydnerthedd, i helpu pobl ifanc i ymdopi ag argyfyngau personol a chymdeithasol yn y dyfodol.

- Fodd bynnag, i weithredu yn y fath fodd, byddai angen i ysgolion a cholegau fod yr un mor barod i ddeall sut i gynnwys gwaith ieuenctid fel partner.

- Y gwaith allweddol yw sicrhau fod oedolion medrus, gwybodus a dibynadwy ar gael mewn amrywiaeth o leoliadau, yn cynnwys gwaith dwys gyda'r sawl sydd ag anghenion lluosog y mae arnyn nhw angen cymorth a datblygiad penodol. Bydd y perthnasoedd a ddatblygir gyda'r bobl ifanc wrth wraidd effeithiolrwydd y cynnig gan waith ieuenctid.

Wrth gloi'r adran hon o'r adroddiad mae'n bosibl fod nifer o gyhoeddiadau, papur a pholisïau eraill y gellid cyfeirio atynt, ond yr hyn sy'n amlwg yw bod y Gwasanaeth Ieuenctid yng Nghymru wedi bod, ac yn dal i fod, yn destun ystyriaeth ac adolygu sylweddol, gan gynnwys ar lefel Gweinidogion.

Mae'n amlwg hefyd y bydd Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol a Deddf yr Iaith Gymraeg, ac yn benodol Safonau Iaith sy'n gysylltiedig â hi, yn gosod cyfrifoldebau a disgwyliadau ychwanegol ar y Gwasanaeth.

Wrth i'r adroddiad hwn gael ei ysgrifennu, mae etholiad ar gyfer y Cynulliad Cenedlaethol yn digwydd ar 5 Mai, a chan ddibynnu ar y canlyniad, efallai bydd angen ystyried gofynion eraill ac ychwanegol a'u mabwysiadu yn y tymor canol i'r tymor hir.

Mae'r cyfan o'r uchod hefyd wrth gwrs o fewn cyd-destun adnoddau sy'n lleihau, gydag awdurdodau lleol yng Nghymru'n dioddef toriadau cyllidebol i wasanaethau o tua 3.2% yn flynyddol ers 2013. Amcangyfrifir y bydd y tueddiad hwn ar i lawr yn parhau ar y gyfradd hon dros y blynyddoedd nesaf. (*Institute for Fiscal Studies – Scenarios for the Welsh Government Budget to 2025/26, Medi 2013*)

## 4. Methodoleg

Drwy'r holl astudiaeth ac ym mhob agwedd o'n gwaith, gan gynnwys ystod a manylion yr ymchwil cefndir a'r holi, mae diffiniadau a chyfeiriadau'r

Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Gwaith Ieuenctid a Strategaeth y Gymraeg wedi bod yn allweddol wrth ddiffinio fframwaith diffinol yr ydym wedi gweithio o'i fewn.

Ar gychwyn yr astudiaeth fe wnaethom ddewis sampl o 8 Awdurdod Lleol ar sail cyfuniad o ddadansoddiad o'r Archwiliad Gwaith Ieuenctid (2014-15) a data democraffig sy'n deillio o Stats Cymru.

Mae'r tabl canlynol yn adnabod yr 8 Awdurdod lleol a ddewiswyd ynghyd â'r dadansoddiad a arweiniodd at iddynt gael eu dewis.

**Darpariaeth Gwaith Ieuenctid: Cyfraniad tuag at Strategaeth yr Iaith Gymraeg**
**Sail Dewis Awdurdodau**

| Cyngor | Darpariaeth trwy'r Gymraeg # | Cyllideb # | Poblogaeth | Dadansoddiad Oed Pobl < 29 | Newid Poblogaeth* | Siaradwyr Cymraeg | Trwch Poblogaeth (Km sg) | Cyllideb Refeniw Gros 2015/16 £,000 | Cyllideb Addysg | Addysg fel % |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwynedd** | Uchaf | Canolig | 123,000 | 36.5% | + 1.3% | 65.40% | 48.2 | 270,682 | 100,785 | 37.23 |
| **Môn** | n/a | n/a | 70,000 | 32% | + 0.38% | 57.20% | 98.6 | 151,652 | 57,354 | 37.82 |
| **Conwy** | Isel | Isel | 116,000 | 30.7% | + 0.65% | 27.40% | 103.3 | 263,229 | 93,882 | 35.67 |
| **Casnewydd** | Isel | Canolig | 150,000 | 38.6% | + 3.56% | 9.30% | 770.7 | 330,941 | 124,325 | 37.57 |
| **Caerdydd** | Canolig | Uchaf | 366,000 | 44.2% | + 3.56% | 11.10% | 2,523.50 | 791,424 | 282,163 | 35.65 |
| **Merthyr Tydfil** | Isaf | Isaf | 60,000 | 37% | + 2.08% | 8.90% | 530 | 147,178 | 50,077 | 34.02 |
| **Wrecsam** | Canolig | Canolig | 141,000 | 36% | + 4.75% | 12.90% | 271.4 | 286,833 | 103,309 | 36.02 |
| **Blaenau Gwent** | Canolig | Isel | 69,000 | 35.8% | - 0.70% | 7.80% | 640.8 | 170,968 | 56,413 | 33.00 |
| **Caerphilly** | Canolig | Uchel | 181,000 | 36.3% | + 1.24% | 11.20% | 648.7 | 422,436 | 159,816 | 37.83 |
| **Ceredigion** | Uchel | Isaf | 76,100 | 38.3% | + 1.09% | 47.30% | 42.2 | 171,701 | 61,043 | 35.55 |
| **Penfro** | Isel | Canolig | 124,300 | 31.7% | + 1.37% | 19.20% | 76.4 | 277,897 | 102,741 | 36.97 |
| **Rhondda** | Uchel | Uchel | 235,900 | 37.3% | + 0.64% | 12.30% | 558.5 | 574,021 | 218,756 | 38.11 |
| **Torfaen** | Isel | Isdel | 92,000 | 36.2% | + 0.88% | 9.80% | 728.8 | 219,174 | 82,374 | 37.58 |

# Awdit Gwaith Ieuenctid        * Rhagdybiaeth Stats Wales 2016        Pob data arall trwy Stats Wales

<u>Rhai nodiadau cefndir ar y meini prawf dewis:</u>

Gwnaed ymgais i sicrhau bod y rheini yr ymgynghorid â nhw yn rhoi sampl cynrychioliadol da o'r amrywiaeth a'r gwahaniaethau gofodol rhwng Awdurdodau Lleol yng Nghymru ac yn cynnwys ffactorau fel y manylir arnynt isod -

Cafodd Gwynedd a Môn eu dewis ar y sail mai ganddyn nhw y mae'r ganran uchaf o'u trigolion sy'n siarad Cymraeg fel iaith gyntaf.

Cafodd Conwy ei ddewis ar y sail ei bod yn ymddangos, o'r dadansoddiad, fod ganddynt nifer cymharol isel o brosiectau sy'n cael eu cyflwyno trwy gyfrwng y Gymraeg.

Cafodd Caerdydd ei ddewis ar y sail fod ganddi'r nifer uchaf o bobl ifanc fel canran o'r boblogaeth ac oherwydd bod ganddi'r dwysedd poblogaeth uchaf o gryn dipyn. Amcangyfrifir hefyd mai gan Gaerdydd y mae'r amcangyfrifon twf poblogaeth uchaf yng Nghymru.

Cafodd Blaenau Gwent ei ddewis ar y sail mai dyma'r unig Awdurdod yng Nghymru sy'n dangos twf negyddol mewn poblogaeth.

Cafodd Sir Benfro ei dewis ar y sail mai ganddi hi mae un o'r niferoedd isaf o bobl ifanc fel canran o'r boblogaeth a chan ei bod yn Awdurdod mawr a gwledig.

Gwahoddwyd pob un o'r Awdurdodau Lleol a ddewiswyd i gymryd rhan mewn cyfweliad strwythuredig (ar sail daearyddiaeth, naill ai dros y ffôn neu wyneb yn wyneb).

Darparwyd amserlen i drefnu pwy fyddai ar gael dros gyfnod o 2 wythnos rhwng 25 Chwefror ac 11 Mawrth, a gwnaed cais iddo gael i gwblhau a'i ddychwelyd cyn gynted ag roedd modd fel y gallem drefnu apwyntiadau.

Daeth yn amlwg yn gynnar nad oedd y dull hwn o dargedu am gynhyrchu'r nifer sampl angenrheidiol i fodloni'r brîff.

Yn wir, ar un adeg roedd pryderon a oedd yr astudiaeth am ddigwydd o gwbl oherwydd y nifer hynod o fach o ymatebion a dderbyniwyd.

Mae'n deg dweud na allai amseru'r astudiaeth fod wedi dod ar amser gwaeth o safbwynt cael gafael ar Uwch Weithwyr Ieuenctid oherwydd –

- gwaith cysoni cyllidebau yn ymwneud â blwyddyn ariannol 2015/2016
- gwaith cynllunio cyllidebau ar gyfer blwyddyn ariannol 2016/2017

Mewn rhai achosion, mae newidiadau mawr i ddarpariaeth Gwaith Ieuenctid yn digwydd o fewn rhai Awdurdodau gyda rhai yn cyflwyno modelau cyflenwi cyfan gwbl newydd, ac mae rhai hyd yn oed yn y broses o drosglwyddo'r gwasanaeth i gorff cyflenwi cwbl newydd.

Mae hyn i gyd wrth gwrs yn cael ei yrru gan agenda gostyngiadau cyllidebol ac arbedion effeithlonrwydd.

Yn y cyd-destun hwnnw mae'n werth nodi bod Caerdydd, er enghraifft, wedi gweld eu cyllideb Gwaith Ieuenctid yn gostwng tua £2M o lefel sylfaenol o £3.2M i £1.1M am y flwyddyn ariannol sy'n dod (2016/2017).

Mae hyn yn amlwg wedi cael effaith sylweddol ar gynllunio a rheoli'r gwasanaethau ac yn y pen draw, gyda'r lleihad anochel yn y staff a gyflogir, mae'n cael, a bydd yn cael, effaith sylweddol ar wasanaethau rheng flaen i bobl ifanc.

Ymhelaethir ar y ffactorau hyn ymhellach yn yr adroddiad, ond o safbwynt yr ymgynghoriad ei hun, roeddent yn rhesymau sylfaenol i ni gymryd dull ychydig yn wahanol ac ymestyn y gwahoddiad i gymryd rhan i bob un o'r 22 Awdurdod Lleol yng Nghymru.

Cafodd amserlen yr ymgynghori ei hymestyn i 16 Mawrth.

Yn ogystal, cafodd holiadur byr ar-lein ei lunio, ac am bob ymateb a dderbyniwyd yn dweud na allent gymryd rhan, neu nad oeddent yn dymuno gwneud hynny, anfonwyd e-bost pellach yn gofyn am gwblhau'r holiadur byr hwn.

Ar y dyddiad cau o 16 Mawrth, lle na dderbyniwyd ymateb o unrhyw fath, anfonwyd cais i gwblhau'r holiadur ar-lein.

Mae'r tabl isod yn rhoi dadansoddiad o'r amserlen a'r ymatebion a dderbyniwyd (neu fel arall)

**Cyfraniad Llywodraeth Leol i Stategaeth yr Iaith Gymraeg**

Dadansoddiad Amser

| **Cam Cyntaf 19eg Chwefror Gweithred** | **Ynys Môn** | **Blaenau Gwent** | **Caerdydd** | **Conwy** | **Gwynedd** | **Merthyr Tydfil** | **Casnewydd** | **Wrecsam** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwahoddiad | | | | | | | | |
| Derbyn | | | | | | | | |
| Canslo | | 07/03/2016 | | | | | | |
| Gwrthod | | | | | | | | |
| Dim Ymateb | | | | | | | | |
| Cwblhawyd | 07/03/2016 | | 08/03/2016 | | 10/03/2016 | | | |

| **Ail Gam 29ain Chwefror Gweithred** | **Pen-y-Bont ar Ogwr** | **Caerffili** | **Caerfyrddin** | **Ceredigion** | **Sir Ddinbych** | **Sir Fflint** | **Sir Fynwy** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwahoddiad | | | | | | | |
| Derbyn | | | | | | | |
| Canslo | | | | | | | |
| Gwrthod | | | | | | | |
| Dim Ymateb | | | | | | | |
| Cwblhawyd | | 11/03/2016 | | 08/03/2016 | | | |

| **Ail Gam 29ain Chwefror Gweithred** | **Castell-nedd Port Talbot** | **Casnewydd** | **Sir Benfro** | **Powys** | **Rhondda Cynon Taf** | **Abertawe** | **Torfaen** | **Bro Morgannwg** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwahoddiad | | | | | | | | |
| Derbyn | | | | | | | | |
| Canslo | | | | | 14/03/2016 | | | |
| Gwrthod | | | | | | | | |
| Dim Ymateb | | | | | | | | |
| Cwblhawyd | 14/03/2016 | | 04/03/2016 | | | | 16/03/2016 | 15/03/2016 |

| **Trydydd Cam 10fed Mawrth Gweithred** | Conwy | Merthyr Tydfil | Casnewydd | Wrecsam | Pen-y-Bont ar Ogwr | Sir Ddinbych | Sir Fflint | Sir Fynwy | Casnewydd | Powys | Abertawe |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Holiadur 'Ar Lein' | | | | | | | | | | | |
| Cwblhawyd | 11/03/2016 | | | | | | 11/03/2016 | 10/03/2016 | | | |
| Dim Ymateb | | | | | | | | | | | |
| | | | | *Ymateb Hwyr | | | | | | *Ymateb Hwyr | |

<u>Crynodeb</u> –

Cynhaliwyd cyfanswm o 9 cyfweliad

Dychwelwyd cyfanswm o 3 holiadur ar-lein

O fewn ein cais gwreiddiol am y gwaith roeddem wedi nodi y byddem yn cynnal Fframwaith Model Rhesymeg ar gyfer pob awdurdod yr ymgynghorwyd ag ef a fyddai'n rhoi'r sail ar gyfer asesu ymatebion yr ymgyngoriadau yn erbyn data gwaelodlin a ymchwiliwyd. Yn anffodus, oherwydd diffyg data dilysadwy cyson, ac mewn rhai achosion dim data o gwbl, nid oedd yn bosibl cwblhau'r Fframweithiau.


Cynhaliwyd ymchwil pellach ynglŷn â chyd-destun Gwaith Ieuenctid a'r Iaith Gymraeg yng Nghymru a defnyddiwyd hyn fel sail ar gyfer adolygu Cynlluniau Corfforaethol yr awdurdodau hynny yr ymgyngorwyd â nhw ynghyd ag adolygiad o raddau Cyfryngau Digidol a'r defnydd ohonynt mewn perthynas â Gwasanaeth Ieuenctid.

# 5. Canfyddiadau'r Ymchwil

## 5.1 Dadansoddiad o'r Holiaduron

Mae'r siartiau a'r sylwadau canlynol yn rhoi darlun o'n canfyddiadau o'r ymgyngoriadau a wnaeth gyda'r 9 awdurdod a gytunodd i gymryd rhan, a'r rhain wedi eu hategu mewn mannau â'r nifer cyfyngedig o ymatebion a dderbyniwyd i'r cais i gwblhau holiadur ar-lein.


Gellir gweld copi o'r holiadur ymgynghori yn Atodiad 1, a chopi o'r holiadur ar-lein yn Atodiad 2.




*Ffynhonnell: Stats Cymru (Amcangyfrifon Canol Blwyddyn 2014)*

Mae'r tabl uchod yn dangos dwysedd poblogaeth pob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru (ar sail cyfanswm poblogaeth).


O safbwynt darparu gwasanaethau ieuenctid, gellid dadlau mai'r isaf y bo'r dwysedd poblogaeth, y mwyaf anodd fydd darparu gwasanaeth cwbl gynhwysfawr a chynhwysol i bob defnyddiwr.




*Ffynhonnell: Stats Cymru (Data Cyfrifiad 2011)*


Mae'r tabl uchod yn rhoi darlun ar draws y 22 awdurdod lleol yng Nghymru o'r ganran o drigolion sy'n gallu siarad Cymraeg (ar sail cyfanswm poblogaeth).

O ran yr astudiaeth a chyfraniad gwaith ieuenctid tuag at Strategaeth y Gymraeg, gellid dadlau y byddai'r rheini sydd â, dyweder 40%+ o drigolion yn siarad Cymraeg yn cyfrannu'n uniongyrchol p'run bynnag.




*Ffynhonnell: Stats Cymru (Data Cyfrifiad 2011) Noder: Pobl Ifanc o safbwynt yr astudiaeth hon yw'r rheini sydd o dan 25 oed. Yn anffodus, ni ellir defnyddio data Stats Cymru i adnabod yr ystod oedran penodol hwnnw, yr hyn sy'n cyfateb orau i'r rheini a nodwyd fel rhai o dan 29 oed*


Mae'r tabl uchod wedi defnyddio data am y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg a'i gyfuno â data dadansoddi oedran ar gyfer pob un o'r 22 o awdurdodau lleol mewn ymgais i ddangos y berthynas bosibl rhwng y gwahanol bwysau tebygol y gall awdurdodau fod yn eu hwynebu wrth ddarparu gwasanaeth cwbl gynhwysol i gyfran uchel o'r boblogaeth yn cael eu hadnabod fel pobl 'ifanc' ar y naill law, a nifer isel o siaradwyr Cymraeg ar y llaw arall.




*Ffynhonnell: Gwaith Ieuenctid yng Nghymru (2014-15)*

Mae'r tabl uchod wedi cael ei gynhyrchu trwy dynnu data o'r Archwiliad Gwaith Ieuenctid yng Nghymru a gosod 'safle' yn nhermau dwy ffactor – sef y nifer o weithgareddau Cymraeg a gyflwynir mewn cymhariaeth â chyllideb gyffredinol gwaith ieuenctid.

Oherwydd hyn mae ar gyfer dibenion enghreifftiol a chyfeiriadol yn unig.





*Ffynhonnell: Amcangyfrifon Canol Blwyddyn 2014 Stats Cymru*

Mae'r siart uchod yn darlunio'r twf cymharol yn y boblogaeth <29 ledled Cymru, ac mae Caerdydd, Casnewydd a Wrecsam, yn y drefn honno, yn dangos rhagolwg twf uwch na'r canolrif. Gall hyn arwain at bwysau ychwanegol ar y gwasanaethau ieuenctid yn yr ardaloedd hynny. Dim ond un awdurdod lleol yng Nghymru, sef Blaenau Gwent, sy'n dangos twf negyddol mewn poblogaeth.


Ymgynghorwyd â chyfanswm o 9 awdurdod lleol a'u holi trwy ddefnyddio holiadur strwythuredig. Gellir gweld copi o'r Holiadur yn Atodiad 1.

Mae dadansoddiad o'r ymatebion i'r holiadur yn dilyn.





*Ymatebion i'r holiadur*

Mae'r tabl uchod yn cynrychioli'r sefyllfa, ar adeg y cyfweld, o ran y nifer o staff llawn-amser a gaiff eu cyflogi. Ym mhob achos mae nifer o staff rhan-amser a gwirfoddol yn ychwanegol at yr uchod, ond mae'r cyfyngiadau cyllidebol yn debygol o effeithio'n drwm ar staff o'r fath ac felly nid ydynt yn cael eu cynnwys. Mae toriadau i gyllidebau yn debygol hefyd o arwain at newidiadau i'r uchod yn y tymor byr i'r tymor canol.





*Ymatebion i'r holiadur*





*Ymatebion i'r holiaduron vs Stats Cymru*

Mae'r tablau uchod yn dangos y newidiadau mewn cyllidebau a fydd yn effeithio ar y gwasanaeth dros y 12 mis sy'n dod.





*Ymatebion i'r holiadur (enghreifftiol)*

Mae'r tabl uchod yn darlunio'r model hanesyddol o gynllunio gwasanaethau ieuenctid ar draws yr awdurdodau lleol yr ymgynghorwyd â nhw. Gwneir rhagdybiaeth nad yw sefydliadau allanol a phrosiectau allanol yn rhan ffurfiol o'r broses gynllunio. Yn yr un modd, er y gallai fod rhai trefniadau partneriaeth ar waith, mae'r uchod yn ymwneud â phartneriaeth gyda sefydliadau gwirfoddol a/neu sefydliadau trydydd sector sy'n rhan o'r broses gynllunio yn hytrach na'r broses o gyflwyno gwasanaethau.





*Ymatebion i'r Holiadur (Enghreifftiol)*

Mae'r uchod yn darlunio'r symudiad pendant yn y dyfodol tuag at gychwyn trefniadau partneriaeth lle bydd gan aelodau o'r bartneriaeth rôl i'w chwarae yn y broses gynllunio ac nid y broses gyflwyno yn unig.





*Ymatebion i'r Holiadur*

Gofynnwyd cwestiwn ynghylch lle'n union yr oedd y gwasanaeth arni ar adeg yr holi o safbwynt newid y model cyflwyno. Ni ofynnwyd a oedd newid o'r fath yn fwriadol mewn ymateb i'r Strategaeth Ieuenctid neu a oedd o ganlyniad i bwysau toriadau i gyllid. Yn wyneb yr ymatebion, beth bynnag y rheswm, mae'n amlwg fod Gwasanaethau Ieuenctid yn profi newidiadau dramatig.




*Ymatebion i'r Holiadur*

Gofynnwyd cwestiwn uniongyrchol ynghylch eu dealltwriaeth o natur amodau grant dewisol, ac yn benodol eu dealltwriaeth o'r gofyniad i'w ddefnydd gyfrannu tuat at Strategaeth y Gymraeg.




*Ymatebion i'r Holiadur*

Mae'r uchod yn rhoi darlun o'r gwahanol rwystrau y mae rheolwyr yn eu hwynebu wrth geisio diwallu anghenion pobl ifanc. Nid yw hyn wedi'i osod mewn unrhyw gyd-destun, gofynnwyd y cwestiwn ynghylch y rhwystrau yr oedden nhw'n eu hwynebu ar y diwrnod yr oedden nhw'n cael eu holi.

## 5.2 Adolygiad o Gynlluniau Corfforaethol

Mae ein hadolygiad o gynlluniau corfforaethol y naw Awdurdod yr edrychwyd arnynt yn awgrymu bod y pwyslais ar yr iaith yn amrywio'n sylweddol o un Awdurdod i'r llall. Ond yn yr un modd, mae'r amlygrwydd a'r pwysigrwydd a roddir i gefnogi ieuenctid ein cenedl yn amrywio, gan ddibynnu pa Gyngor yr ydych yn ei adolygu.

Yn bwysicach na hyn, ychydig o dystiolaeth a ganfyddwn (o fewn y cynlluniau corfforaethol o leiaf) sy'n cydnabod y cysylltiad rhwng cefnogi pobl ifanc a hyrwyddo a datblygu'r iaith.

Wrth i awdurdodau lleol fabwysiadu ac adolygu cynlluniau corfforaethol presennol bydd amlygrwydd a pherthnasedd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn sicr o gynyddu. Yn ei dro, efallai y bydd y sylw a roddir i hyrwyddo'r Gymraeg hefyd yn dod yn amlycach.

**<u>Gwynedd</u>**

Rhoddir blaenoriaeth glir ac amlwg i bobl ifanc a'r iaith Gymraeg yng Nghynllun Corfforaethol Gwynedd 2013-17. Mae "Plant a Phobl Ifanc" a'r "Iaith Gymraeg" yn ddwy o'r saith Blaenoriaeth a nodir gan yr Awdurdod.

Yn ogystal, yng nghyd-destun y Gymraeg, un o'r is-flaenoriaethau allweddol yw'r uchelgais i sicrhau bod pobl ifanc yn defnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol a *"gobeithir y gellir gwella ymwybyddiaeth ac y gwneir cynnydd yn y defnydd o'r iaith ymysg pobl ifanc"*.

Mae'r cynllun corfforaethol yn gosod dau brawf glir ar gyfer ei strategaeth Iaith Gymraeg, sef:

- "Mae gan Blant a Phobl Ifanc Gwynedd well dealltwriaeth o'r Gymraeg a hunaniaeth"
- "Mae Plant a Phobl Ifanc Gwynedd yn defnyddio'r iaith yn gymdeithasol"

Mae'r uchelgeisiau a'r profion hyn yn cyfateb yn agos ag uchelgeisiau Llywodraeth Cymru; fodd bynnag ni welwn unrhyw gyfeiriad penodol at gysoni gyda strategaethau Llywodraeth Cymru o fewn y ddogfen.

---

**Ynys Môn**

Mae Ynys Môn yn rhoi llai o amlygrwydd i'r Iaith Gymraeg a Pholisi Ieuenctid o fewn ei gynllun corfforaethol. Caiff y Gymraeg ei nodi fel un o nifer o flaenoriaethau o dan y thema allweddol o "Canolbwyntio ar Gwsmeriaid, Dinasyddion a Chymunedau" gyda'r nod o sicrhau:

…. *"hyrwyddo'r iaith a'r diwylliant Cymraeg trwy weithredu strategaeth iaith Gymraeg ddatblygedig"*

Mae ychydig o gyfeiriadau at bobl ifanc o fewn y cynllun, ond yn fwyaf penodol o dan y thema addysg, sef "Gwella Addysg, Sgiliau a Moderneiddio ein Hysgolion". Ychydig o gyfeirio a welsom at y Gwasanaeth Ieuenctid fel y cyfryw, ac ni welsom unrhyw gyfeiriad o gwbl at ddefnyddio a hyrwyddo'r iaith a'r diwylliant Cymraeg ymysg pobl ifanc.

---

**Sir Benfro**

Mae Cynllun Integredig Sengl Sir Benfro 2013-18 yn dod â phedair strategaeth flaenorol ynghyd, sef:

- Y Strategaeth Gymunedol
- Y Cynllun Plant a Phobl Ifanc
- Y Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Llesiant
- Y Strategaeth Diogelwch Cymunedol

Mae'r Cynllun Integredig Sengl yn dal i osod pwyslais mawr ar Blant a Phobl Ifanc, ac mae'n un o'r chwe chanlyniad allweddol y bydd yr Awdurdod a'i bartneriaid yn ymdrechu tuag ato: Mae plant, pobl ifanc a theuluoedd yn cael y cyfle i ddiwallu eu potensial dysgu a byw bywydau iach a hapus.

- Mae gan Sir Benfro economi gystadleuol, cynhyrchiol a chynaliadwy.
- Mae pobl yn Sir Benfro yn mwynhau amgylchedd deniadol, cynaliadwy ac amrywiol.
- Mae pobl yn Sir Benfro yn iachach.
- Caiff plant ac oedolion eu diogelu.
- Mae cymunedau yn Sir Benfro yn teimlo'n ddiogel.

Fodd bynnag, ni allwn weld unrhyw gyfeiriad penodol at y Gymraeg yn y Cynllun yn gyffredinol, nac ychwaith yng nghyd-destun cefnogi pobl ifanc a chymunedau.

---

**Cynllun Corfforaethol Bro Morgannwg 2016-20**

Drwy mai hwn yw mwyaf cyfredol o'r holl Gynlluniau Corfforaethol a adolygwyd, mae bron yn anochel mai hwn yw'r un sy'n cyfeirio amlycaf at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Yn sgil hyn, mae felly'n rhoi parch dyledus at yr iaith a'r diwylliant Cymraeg, ac yn cydnabod ei gyfrifoldebau i helpu hyrwyddo Cymru fel gwlad sydd â diwylliant bywiog ac iaith Gymraeg sy'n ffynnu.

Mae'r Awdurdod yn gosod yr iaith yn gadarn ac yn gadarnhaol o fewn y cynllun corfforaethol, gan ddatgan:

*Rydym yn falch o Fro Morgannwg a'n lle yng Nghymru a bod y defnydd o'r Gymraeg yn tyfu yn y Fro.*

Mae Cynllun Bro Morgannwg yn cadarnhau hefyd, ac mae hyn yn bwysig:

*"Rydym hefyd yn gwerthfawrogi'n treftadaeth a'n diwylliant unigrwy a'r pwysigrwydd i bobl o bob oedran fwynhau amrywiaeth o weithgareddau a chael y cyfleoedd i fod yn greadigol. Rydym felly wedi adnabod gwerthfawrogi diwylliant ac amrywiaeth fel un o'n wyth o amcanion llesiant"*

Ac mae'n nodi'n benodol yr amcanion canlynol:

- Gweithio gyda phartneriaid i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg. 2019/2020
- Gweithredu'r Safonau Iaith Gymraeg i wella mynediad at wasanaethau a gwybodaeth. 2019/2020

O safbwynt cefnogi pobl ifanc, mae'r cynllun yn nodi:

*"Cydnabyddwn fod yn rhaid inni gefnogi anghenion amrywiol ein pobl ifanc a hyrwyddo eu llesiant fel y gallant gyflawni eu potensial."*

Mae'n cyfeirio'n benodol hefyd at y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Ieuenctid:

Gweithredu'r Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Ieuenctid er mwyn sicrhau bod pobl ifanc (11-25) yn gallu cael at wasanaethau cymorth ieuenctid o ansawdd uchel.

---

**Cynllun Corfforaethol Caerffili 2013-17**

Mae'r Awdurdod yn gosod pwyslais sylweddol ar gefnogi ei bobl ifanc, ar draws ei saith thema blaenoriaeth; sef:

- Mae ein cymunedau yn lleoedd diogel, gwyrdd a glân i fyw er mwyn gwella ansawdd bywyd trigolion.
- Mae arnom eisiau gwella cyfleoedd swyddi yn ein Bwrdeistref Sirol, fel y gall pobl fyw bywydau gwell.
- Ein nod yw y dylai pob plentyn gael y dechrau gorau mewn bywyd, a'r cyfle i gyflawni llwyddiant fel person ifanc ac fel oedolyn.
- Mae arnom eisiau galluogi'n cymunedau i wneud dewisiadau iach am eu ffordd o fyw i wella ansawdd bywyd dinasyddion.
- Mae arnom eisiau gwella hygyrchedd drwy'r holl fwrdeistref sirol, trwy amrywiaeth o ffyrdd gan gynnwys gwell mynediad digidol.

- Mae arnom eisiau trawsnewid cartrefi'r cyngor ac wrth wneud hynny drawsnewid bywydau a chymunedau.

Mae Cynllun Caerffili yn un o'r ychydig sy'n cyfeirio'n benodol at ei Wasanaeth Ieuenctid, gan ddatgan amcan penodol, sef:

*"Datblygu Gwasanaeth Ieuenctid effeithiol a hygyrch sy'n cefnogi datblygiad personol a chymdeithasol pobl ifanc."*

Fodd bynnag, ni allwn weld unrhyw gyfeiriad at y Gymraeg o dan unrhyw un o'r meysydd blaenoriaeth nac o fewn y Cynllun Corfforaethol yn gyffredinol.

---

## Cynllun Corfforaethol Dinas Caerdydd 2016-18

Mae Awdurdod Lleol y Brifddinas wedi gosod pedair blaenoriaeth gorfforaethol dros y ddwy flynedd nesaf, sef:

- Blaenoriaeth 1: Gwell addysg a sgiliau i bawb
- Blaenoriaeth 2: Cefnogi pobl fregus
- Blaenoriaeth 3: Creu mwy o swyddi a'r rheini'n talu'n well
- Blaenoriaeth 4: Gweithio gyda'n gilydd i drawsnewid gwasanaethau.

Caiff y blaenoriaethau hyn eu cadarnhau gan y canlyniadau canlynol:

- Mae pobl yng Nghaerdydd yn ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel
- Mae gan Gaerdydd economi ffyniannus a llewyrchus
- Mae pobl yng Nghaerdydd yn cyflawni eu potensial llawn
- Mae Caerdydd yn lle gwych i fyw, gweithio a chwarae
- Mae gan bobl yng Nghaerdydd amgylchedd glân, deniadol a chynaliadwy

- Mae pobl yng Nghaerdydd yn iach

- Mae Caerdydd yn gymdeithas deg, chyfiawn a chynhwysol

Mewn dull tebyg i Fro Morgannwg, mae Dinas Caerdydd wedi diweddaru ei Chynllun Corfforaethol yn ddiweddar ac mae hithau hefyd yn cyfeirio'n benodol at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015; gan nodi:

*"Mae Cyngor Dinas Caerdydd hefyd yn cefnogi amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac yn croesawu'r symudiad i osod cynaliadwyedd fel rhan greiddiol o wneud penderfyniadau yng Nghymru."*

O'r herwydd, mae cyfeiriad penodol at gefnogi'r Gymraeg ac mae'n cysylltu'r gefnogaeth i'r iaith a'r diwylliant â chanlyniad corfforaethol yr Awdurdod Lleol fod y ddinas yn lle gwych i fyw, gweithio a chwarae.

---

**<u>Cynllun Gwella Corfforaethol Castell-nedd Port Talbot 2014-17</u>**

Mae cefnogaeth i bobl ifanc yn rhan greiddiol o Gynllun yr Awdurdod hwn. Mae'r cyflwyniad i'r cynllun tair blynedd yn dechrau fel hyn:

*Mae gan y Cyngor hanes blaenorol cadarn o flaenoriaethu gwasanaethau i Blant a Phobl Ifanc, y bregus a'r mwyaf difreintiedig a bydd y polisi hwn yn parhau.*

Caiff cynllun yr Awdurdod ei arwain gan chwe amcan allweddol:

- Gwella canlyniadau i blant mewn angen a phlant sy'n derbyn gofal trwy wella perfformiad Adran Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc y Cyngor – 'Dyfodol Diogelach a Disgleiriach'
- Codi safonau a chyrhaeddiad addysg i bob person ifanc – 'Ysgolion Disgleiriach Rhagolygon Disgleiriach'

- Sicrhau bod hynny ag sy'n bosibl o oedolion sy'n gallu byw'n annibynnol gyda chymorth neu heb gymorth yn y cartref o'u dewis o fewn eu cymuned – 'Uchafu Dewis ac Annibyniaeth'
- Cefnogi canol ein trefi a'n cymunedau a buddsoddi ynddynt i hyrwyddo twf economaidd, adfywio a chynaliadwyedd i sicrhau hynny ag y bo modd o gyfleoedd swyddi a gwella mynediad at gyflogaeth – 'Ffyniant i Bawb'
- Cynyddu'r ganran o wastraff a gaiff ei ailgylchu a'i gompostio – 'Lleihau, Ailddefnyddio, Ailgylchu'
- Gwell mynediad i gwsmeriaid/dinasyddion at wasanaethau a swyddogaethau a ddarperir gan y Cyngor, neu ar ran y Cyngor, a gwella effeithlonrwydd y gwasanaethau a'r swyddogaethau hynny – 'Gwell, Symlach, Rhatach'

Mae'r pwyslais ar bobl ifanc yn amlwg drwyddo, fel y mae'r pwyslais ar gefnogi gweithlu'r dyfodol yn yr ardal.

O ran y Gymraeg, mae'r Cynllun yn cydnabod ei rwymedigaethau statudol ac yn nodi:

*"Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn darparu sail ddeddfwriaethol i gynhyrchu 'safonau ymddygiad' o safbwynt y defnydd o'r Gymraeg ac na ddylid ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg."*

Ond mae'n rhybuddio:
*"Mae gweithredu'r Safonau newydd am fod yn anodd ei gyflawni oherwydd bydd angen adnoddau ychwanegol sylweddol yn ystod cyfnod o lymder. Heb adnoddau ychwanegol, bydd yn rhaid inni ganolbwyntio ar y camau y gallwn eu gweithredu gan ddefnyddio'r adnoddau presennol.*

*"Tra bydd y gwaith ar y Safonau newydd yn dal ar y gweill, daliwn i fod yn ymrwymedig i statws cyfartal y Gymraeg a'r Saesneg wrth gynnal busnes yng Nghymru. Mae ein Cynllun Iaith Gymraeg yn cadarnhau'r ymrwymiad hwn."*

## Strategaeth Gorfforaethol Ceredigion 2013-17

Caiff y Cynllun ar gyfer yr Awdurdod hyd at 2017 ei lywodraethu gan y weledigaeth ganlynol:

*"Mae pobl Ceredigion yn falch o berthyn i gymuned ddwyieithog, cynaliadwy, iach, ffyniannus a diogel"*

Mae'n werth nodi'r lle blaenllaw a roddir i'r pwyslais ar gymeriad dwyieithog y Sir.

Caiff y weledigaeth hon ei chadarnhau gan y Canlyniadau Blaenoriaeth canlynol:

- Cefnogi Teuluoedd

    Mae teuluoedd yng Ngheredigion yn cael y cyfle i ffynnu a chyrraedd eu potensial

- Economi a Lle

    Mae gan bobl yng Ngheredigion y sgiliau a'r gefnogaeth i gael gwaith

    Mae cymunedau Ceredigion yn gryf a gwerthfawrogir ei amgylcheddau naturiol

- Byw Annibynnol

    Mae pobl yng Ngheredigion yn byw mewn cartrefi a chymunedau diogel a fforddiadwy

    Mae pobl yng Ngheredigion yn gallu byw bywydau llawn.

Mae cefnogaeth i'r iaith yn amlwg, a phwysleisir hyn yn gryno gan y datganiad canlynol:

*"Bydd Polisi Iaith y Cyngor yn sicrhau bod pawb o'n dysgwyr yn rhugl yn y ddwy iaith erbyn yr adeg y maent yn 14 mlwydd oed. Byddwn hefyd yn sicrhau cyfleoedd cyfartal i ddysgwyr ennill achrediad yn yr iaith o'u dewis ym mhob maes pwnc erbyn yr adeg y maent yn 16 mlwydd oed er mwyn helpu disgyblion i ddiwallu'r angen cynyddol am weithlu dwyieithog yn y Sir."*

Mae llai o bwyslais ar gefnogaeth i bobl ifanc a chyflwyno Gwasanaeth Ieuenctid (er bod un yn cael ei gyflwyno'n rhagweithiol gan yr Awdurdod); er bod camau i liniaru allfudo gan bobl ifanc a lleihau'r nifer nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth (NEET) ymysg y camau allweddol (o'n hymgynghoriad gyda'r Awdurdod nodwyd bod y nifer o bobl a ddosbarthwyd fel NEET yr ail isaf yng Nghymru ar hyn o bryd).

---

**<u>Cynllun Corfforaethol Torfaen 2016 – 2021</u>**

Dyma'r trydydd cynllun o'r fath gan yr Awdurdod, ac mae'n seiliedig ar dri amcan allweddol:

- Torfaen glân a gwyrdd
- Codi cyrhaeddiad addysgol
- Cefnogaeth i drigolion mwyaf bregus Torfaen

Rhoddir pwyslais sylweddol ar bobl ifanc, ac amlinellir llu o gamau sy'n cefnogi datblygiad cenedlaethau'r dyfodol yn y sir, gan gynnwys:

- Rhoddir y siawns orau bosibl mewn bywyd i bawb o'n pobl ifanc trwy gyrraedd safon dda o addysg
- Gweithio gydag ysgolion a staff addysgu i godi cyrhaeddiad ac annog pob person ifanc i gymryd rhan mewn addysg neu hyfforddiant ôl-16

- Gweithio tuag at bob ysgol yn cael ei graddio'n wyrdd neu'n felyn yn y System Genedlaethol ar gyfer Categoreiddio Ysgolion
- Sicrhau bod pob plentyn yn derbyn addysg o ansawdd da, yn enwedig plant sy'n derbyn gofal, y rheini ag anghenion dysgu ychwanegol neu mewn risg o fynd i ofal
- Gweithio i gau'r bylchau cyrhaeddiad rhyw ac economaidd-gymdeithasol
- Gweithio i sicrhau bod gan bob dysgu sgiliau llythrennedd a rhifedd effeithiol
- Cynllunio ar gyfer adeiladau ysgolion newydd a gwell sy'n addas i'r diben yn yr 21ain ganrif
- Cefnogi ac annog ein pobl ifanc i'w rhwystro rhag dod yn NEET (rhai nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth)
- Gweithio gydag ysgolion i sicrhau bod pobl ifanc yn datblygu'n ddinasyddion da sydd â'r siawns orau bosibl yn y farchnad swyddi bresennol
- Cydnabod pwysigrwydd addysg blynyddoedd cynnar, adnabod anghenion dysgwyr a theilwra gwasanaethau i sicrhau bod pob plentyn a'u rheini/gofalwyr yn cael cymorth i ddysgu a chyflawni.

Fodd bynnag, ac eithrio un cyfeiriad at gyrhaeddiad TGAU Cymraeg fel dangosydd allweddol o lwyddiant, ni allem weld unrhyw dystiolaeth ynghylch hyrwyddo a datblygu'r iaith nac ymwybyddiaeth ohoni yn uniongyrchol.

## 5.3 Defnydd o Gyfryngau Digidol

Mae Strategaeth y Gymraeg yn cyfeirio'n uniongyrchol at hyrwyddo, defnyddio a manteisio ar gyfryngau digidol i helpu cryfhau'r seilwaith ar gyfer hyrwyddo'r iaith.

Yn yr adran hon rydym yn ceisio asesu awdurdodau lleol o safbwynt eu defnydd o gyfryngau digidol o'r fath.

Gwnaed hyn trwy ddefnyddio tri pheiriant chwilio, sef Google, Bing and DuckDuckGo. Mae Google a Bing yn beiriannau chwilio adnabyddus a chydnabyddedig ond mae canlyniadau chwiliadau wedi eu pwysoli rywfaint, mae llawer wedi eu noddi a chanlyniadau'r gyfyngedig i ryw raddau yn y ffordd nad ydynt yn arwain ond at wefannau penodol sy'n cynnwys meini prawf y chwiliad.

Mae DuckDuckGo yn beiriant chwilio llai adnabyddus sy'n ddefnyddiol iawn yn y ffordd nad ymddengys ei fod yn cyflwyno canlyniadau wedi eu pwysoli, mae dolenni a noddir a rhai a hysbysebir wedi eu cadw i isafswm, ac roedd yn ddefnyddiol fod canlyniadau chwiliadau yn cynnwys amrywiaeth helaeth o ffynonellau gan gynnwys cyfeiriadau cyfryngau cymdeithasol fel Facebook, Twitter ac eraill y gellir eu cyfeirio'n ôl at feini prawf y chwiliad.

Defnyddiwyd pob peiriant chwilio a defnyddiwyd meini prawf chwilio o Wasanaeth Ieuenctid [enw awdurdod lleol]; Gwasanaethau Ieuenctid yn [enw awdurdod lleol]. Ni wnaed chwiliad gan ddefnyddio'r meini prawf chwilio yn y Gymraeg er mwyn sicrhau cysondeb cyffredinol yn y ffordd yr aed ati, ac i sicrhau ein bod yn gallu asesu cyfeiriadau at y Gymraeg yn gywir trwy'r prif ganlyniadau a gafwyd.

Mae'r canlynol yn grynodeb o'n canfyddiadau.

## Awdurdod Lleol - Gwynedd

| Gwefan / Microwefan Benodedig? | Dwyieithog | Trosolwg gyffredinol | Gwybodaeth ar yr iaith Gymraeg a diwylliant |
|---|---|---|---|
| Oes<br><br>http://www.gwynedd-ni.org.uk | Ydyw (drych-safle) | Darparu gwybodaeth helaeth ac amrywiol. | Nid chafwyd hyd i ddim byd penodol, er hynny, mae nifer o ddolenni i weithgareddau a gyflwynir trwy'r Gymraeg, ee Sbarc, Galeri.<br><br>Fodd bynnag, ni allwn weld unrhyw weithgareddau penodol sy'n hybu ymwybyddiaeth o iaith a diwylliant Cymru, na chyfeiriad penodol o fewn y wefan.<br><br>Mae hyn, efallai, yn adlewyrchiad o natur y Sir a'r Awdurdod ei hun; sef bod hyrwyddo'r iaith a'r diwylliant yn rhan gynhenid o'r rhan fwyaf os nad y cyfan o'r cyflwyno. |

## Awdurdod Lleol – Ynys Môn

| | | | |
|---|---|---|---|
| Na; rhan o brif wefan yr Awdurdod<br><br>http://www.anglesey.gov.uk/community/young-people | Ydyw (drych-safle) | Gwybodaeth gyfyngedig. Corfforaethol iawn. Ddim wedi ei llunio i gysylltu â phobl ifanc. | Dim |

## Awdurdod Lleol – Castell-nedd Port Talbot

| | | | |
|---|---|---|---|
| Oes, trwy Borth Dysgu Castell-nedd Port Talbot<br><br>https://www.npted.org/section/youth-service/Pages/default.aspx<br><br>Mae tudalen Facebook hefyd:<br><br>https://www.facebook.com/NPTYouthService | Na. Ni allem weld dolen i Dudalen Gymraeg yn unman. | Dewis da o wasanaethau yn cael eu rhestru ar y brif wefan.<br><br>Mae'r dudalen Facebook yn gorfforaethol iawn yr olwg ac roedd yr eitem newyddion ddiwethaf yn adrodd am broblemau gyda'r ffôn wedi ei bostio tua phum wythnos cyn yr holi/ adolygiad. | Ni chafwyd hyd i unrhyw wybodaeth o gwbl. |

## Awdurdod Lleol – Bro Morgannwg

| | | | |
|---|---|---|---|
| Na, rhan o brif wefan yr Awdurdod Lleol:<br><br>http://www.valeofglamorgan.gov.uk/en/living/youth_service/youth_service.aspx | Ydyw, drych-safle | Rhestrir amrywiaeth o wasanaethau, a thynnir sylw at rai prosiectau arloesol.<br><br>Fodd bynnag, unwaith eto mae'n gorfforaethol iawn mewn arddull a sylwedd. | Ni chafwyd hyd i unrhyw wybodaeth ar yr iaith a'r diwyllant Cymraeg. |

## Awdurdod Lleol – Dinas Caerdydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| Na, ond dolenni uniongyrchol trwodd i'r Wefan Gwasanaeth Gwybodaeth Teuluoedd i bobl ifanc: The Sprout.<br><br>http://www.thesprout.co.uk/en/<br><br>a hefyd tudalen Facebook yr Awdurdod Lleol ei hun:<br><br>https://www.facebook.com/CardiffYouthService/ | Mae prif wefan yr Awdurdod Lleol yn ddwyieithog.<br><br>Mae The Sprout hefyd yn ddwyieithog i raddau helaeth.<br><br>Saesneg yn bennaf yw Facebook. | Nid yw'r brif wefan yn apelgar iawn.<br><br>Fodd bynnag, mae'r ddolen i The Sprout yn cynnig porthol rhyngweithiol cynhwysfawr i bobl ifanc.<br><br>Nid ymddengys fod y dudalen Facebook yn cael ei diweddaru'n rheolaidd iawn. Roedd y post diwethaf wythnos cyn yr holi / adolygiad. | Mae'r brif wybodaeth ar yr iaith a'r diwylliant Cymraeg ar "The Sprout".<br><br>Mae trosolwg dda o'r Gymraeg i rywun sydd heb ddim neu fawr ddim dealltwriaeth o'r iaith. |

## Awdurdod Lleol – Sir Benfro

| | | | |
|---|---|---|---|
| Oes<br><br>http://www.pembrokeshireyouthzone.co.uk/ | Ydyw.<br><br>Ond nid yw pob dolen yn arwain at wybodaeth ddwyieithog. Mae'r brif saernïaeth yn ddwyieithog, ond mae nifer o straeon manwl a nodweddion mewn Saesneg yn unig.<br><br>Fodd bynnag, mae nifer o dudalennau sy'n ddibynnol ar ffrwd allanol (yn fwyaf penodol Cyngor Caerdydd) lle nodir y canlynol:<br><br>"Mae`r dudalen hon wrthi`n cael ei chreu ar hyn o bryd. Mae Cyngor Caerdydd yn gweithio`n galed i greu gwefan ddwyieithog, felly diolch am eich amynedd wrth i ni ychwanegu`r cynnwys." | Golwg apelgar, gydag amrywiaeth helaeth o wasanaethau yn cael eu hamlygu. | Adran gan adran benodol, "Cymru, y Deyrnas Unedig, Ewrop a'r Byd" adran ar ddiwylliant a threftadaeth, ond ni allem weld unrhyw gynnwys yn y Gymraeg na'r Saesneg. |

## Awdurdod Lleol – Caerffili

| | | | |
|---|---|---|---|
| Oes<br><br>http://www.youth4u.co.uk/ | Ydyw, drych-safle. Ymddengys fod y mwyafrif o dudalennau wedi cael eu cyfieithu. | Golwg a theimlad diddorol, unwaith eto rhestrir amrywiaeth o wasanaethau. | Ni chafwyd hyd i unrhyw wybodaeth ar yr iaith a'r diwylliant Cymraeg. |

## Awdurdod Lleol – Ceredigion

| | | | |
|---|---|---|---|
| Oes – mae ganddi'r un olwg, teimlad a saernïaeth â gwefan Caerffili.<br><br>Fodd bynnag, ni allem weld unrhyw ddolen uniongyrchol trwodd i brif wefan Ceredigion. Mae tudalen unswydd ar gyfer Gwasanaethau Ieuenctid ar y brif wefan ond dim dolen i'r wefan gwasanaethau ieuenctid (sy'n ymddangos y pumed ar chwiliad Google o dan "Ceredigion Youth Services"<br><br>http://www.youth4u.co.uk/en/organisations/gwasanaeth-iouth-service/04783.html<br><br>Mae hefyd dudalen Facebook: | Mae'r brif wefan Ieuenctid yn bennaf ddwyieithog.<br><br>Mae'r negeseuon Facebook i gyd yn ddwyieithog. | Golwg a theimlad diddorol; unwaith eto amrywiaeth o wasanaethau yn cael eu rhestru. | Methu gweld unrhyw ddolenni i weithgareddau Cymraeg neu ddiwylliannol. |

## Awdurdod Lleol – Torfaen

| | | | |
|---|---|---|---|
| Mae'r brif wybodaeth trwy wefan gorfforaethol yr Awdurdod Lleol<br><br>http://www.torfaen.gov.uk/en/EducationLearning/ChildrenandYoungPeople/Youngpeople-informationandadvice/Youth-Service.aspx<br><br>Trwy gyfeiriadur gwasanaethau'r Awdurdodau Lleol fe welsom hefyd restr o brosiectau, gwasanaethau a chyrsiau i bobl ifanc<br><br>http://www.torfaenyis.org.uk/Service-Directory/Services/Torfaen-Youth-Service/Youth-Service.aspx<br><br>Mae hefyd tudalen Facebook:<br><br>https://www.facebook.com/torfaenyouth<br><br>A chyfrif Twitter:<br><br>https://twitter.com/torfaenyouth | Mae gan y brif wefan Ddewis Cymraeg, ond mae clicio 'Cymraeg' ar dudalen benodol yn mynd â chi'n ôl i'r dudalen flaen.<br><br>Hon yw'r unig wefan y daethom ar ei thraws a oedd yn cynnig dewis rhyngweithiol wrth restru cyrsiau a oedd yn cynnig Cymraeg fel hidlydd, hynny yw fod y cwrs, rhaglen etc yn cael ei gyflwyno'n rhannol neu trwy gyfrwng y Gymraeg.<br><br>Saesneg yn bennaf yw Facebook a Twitter ond mae'r prif deitlau yn ddwyieithog. | Nid yw'r brif wefan yn apelgar iawn.<br><br>Byddai rhestr ryngweithiol yn ddefnyddiol, ond ni allem gael hyd i ddolen uniongyrchol trwy'r dudalen gwasanaeth ieuenctid.<br><br>Mae'r hyn sy'n cael ei bostio ar Facebook a Twitter yn tueddu i fod yn ddwyieithog. Ond roedd post diweddaraf Facebook dros dair wythnos oed. | Dim tystiolaeth o unrhyw weithgareddau Cymraeg na diwylliannol. |

Ar sail y naw Awdurdod Lleol a gafodd eu hadolygu, mae darpariaeth gwybodaeth ar-lein yn amrywio o awdurdod i awdurdod, o safbwynt rhwyddineb mynediad, amlygrwydd a'r manylion a ddarperir.

Mae dwyieithrwydd yn amrywio rhywfaint, er bod drych-safleoedd yn y rhan fwyaf o achosion. Fodd bynnag, mewn un achos nid oeddem yn gallu cael hyd i unrhyw gyfleuster i gael at wybodaeth ar wasanaethau ieuenctid trwy gyfrwng y Gymraeg.

Fodd bynnag, yr hyn sydd fwyaf amlwg o'n hadolygiad, gydag un eithriad, yw na chawsom hyd i ddim byd penodol am yr iaith a'r diwylliant Cymraeg.

Ymddengys fod rhai ymdrechion mewn cyfryngau cymdeithasol, ond ymddengys y rhain braidd yn docenistaidd, ac er bod rhai'n gwneud rhai ymdrechion clodwiw i bostio negeseuon dwyieithog, ni welir unrhyw hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o'r iaith a'r diwylliant Cymraeg.

## 6. Sylwadau a Chanfyddiadau Cyffredinol

Cyflwyniad

Yn ystod cyfnod yr astudiaeth hon rydym wedi dod yn ymwybodol iawn fod cymaint o Strategaethau, Polisïau ac Adroddiadau sy'n effeithio ar Wasanaethau Ieuenctid yng Nghymru fel ei bod yn her wirioneddol i barhau i ganolbwyntio ar y brîff gwreiddiol o geisio mesur y cyfraniad a wneir gan y Gwasanaeth tuag at Strategaeth y Gymraeg.

I ddibenion eglurder a dealltwriaeth, teimlwn hefyd ei bod yn angenrheidiol gwahaniaethu rhwng 'swyddogaethau gwasanaeth' a'r iaith Gymraeg. O safbwynt y brîff hwn bernir mai'r 'swyddogaethau gwasanaeth' yw rheini sy'n diwallu anghenion pobl ifanc boed nhw'n gysylltiedig ag iechyd meddwl, digartrefedd, addysg, amddifadedd etc. Nid 'swyddogaeth gwasanaeth' yw'r iaith Gymraeg yn thema drawsbynciol ar draws pob swyddogaeth o'r fath. Gellid dadlau felly y gallai astudiaeth o effaith Gwasanaethau Ieuenctid ar bobl ifanc NEET, a pha ran y mae'r iaith Gymraeg wedi'i chwarae yn hynny, o bosibl fod wedi rhoi set wahanol o ganfyddiadau a chanlyniadau.

Mae'n bwysig hefyd datgan o'r cychwyn fod rhai canfyddiadau yn seiliedig ar nifer sampl braidd yn gyfyngedig o awdurdodau yr ymgynghorwyd â nhw – 9 allan o 22, ac felly ni ddylid eu hystyried fel rhai diffiniol.

Sylwadau

O ran gofynion y brîff, ac ar lefel gyffredinol iawn, yr ateb yw YDYW, y MAE'R Gwasanaeth yn cyfrannu at y Strategaeth. Fodd bynnag, o ganlyniadau a chanfyddiadau ein hymchwil, rhaid inni ddod i'r casgliad fod hyn trwy ddamwain yn hytrach na thrwy gynllunio, a bod amrywiadau helaeth o ran dehongli, pwyslais ac effaith, rhwng awdurdodau lleol a'i gilydd.

Os yw'n wir fod gofyniad pendant ar i gyllid Llywodraeth Cymru gyfrannu at Strategaeth y Gymraeg, yna mae'n amlwg nad yw hyn yn cael ei ddeall yn llawn gan y mwyafrif o'r Awdurdodau hynny yr ymgynghorwyd â nhw.

Yn ogystal, roeddem yn ei chael hi'n anodd iawn o'n hymchwil i adnabod paramedrau neu ganllawiau clir a oedd yn nodi disgwyliadau Llywodraeth Cymru o safbwynt y berthynas strategol hon.

Fel mae pethau ar hyn o bryd, rhaid dod i'r casgliad nad yw'r Strategaethau presennol yn nodi nac yn egluro unrhyw ffurf o ganlyniadau mesuradwy a'r ffordd y caiff canlyniadau o'r fath eu mesur.

Nid ydym wedi gallu cael gafael ar unrhyw ddata i gefnogi'n gwaith o safbwynt effeithiau neu ganlyniadau sy'n fesuradwy a chyfrifadwy yn nhermau Gwaith Ieuenctid nac yn nhermau cyfraniad Gwaith Ieuenctid tuag at Strategaeth y Gymraeg.

Hefyd, o ran Strategaeth y Gymraeg ei hun, rydym ychydig yn ddryslyd ynghylch lle, a phwy yn y pen draw, o fewn Llywodraeth Cymru sydd â'r cyfrifoldeb ac sy'n atebol am ei gweithredu, am osod nodau cyraeddadwy a mesuradwy a monitro'r rheini wedyn.

Yn wir, cadarnheir hyn gan y mwyafrif llethol o ymatebwyr yn y ffordd yr oedden nhw'n cymryd bod 'amodau cyffredinol' y llythyr cynnig am grant yn cyfeirio at yr angen i lynu at y polisi cyffredinol o ddwyieithrwydd yn hytrach nag unrhyw amod penodol arall i hyrwyddo'r Gymraeg.

Mae'n canfyddiadau ni'n awgrymu mai'r prif yrrwr o safbwynt hyrwyddo'r Gymraeg ar hyn o bryd mewn gwirionedd yw Polisïau Iaith Gymraeg yr Awdurdodau Lleol eu hunain.

Bydd hyn yn sicr o newid dros amser wrth i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 gael ei mabwysiadu'n llawn ynghyd â'i gofyniad i adnabod Dangosyddion a Cherrig Milltir Cenedlaethol. Ond mae hyn yn gofyn am ddealltwriaeth integredig, traws-swyddogaethol a llawn gan bawb perthnasol, nid y Gwasanaeth Iechyd yn unig, nac yn wir yr awdurodau lleol, ond gan bob sefydliad sector cyhoeddus.

Yn ddieithriad roedd pawb o'r rhai yr ymgynghorwyd â nhw o'r farn fod gan ddiwylliant a threftadaeth Cymru rôl ganolog i'w chwarae yn y ffordd y caiff y gwasanaeth ei gyflwyno, a'i bod yn hynod bwysig 'bod yn Gymreig'. I rai, nid oedd cyflwyno'n benodol trwy gyfrwng y Gymraeg yn cael ei weld fel maes blaenoriaeth ganddynt.

Gwnaed sylwadau ynghynt ar ddiwylliant Cymreig a'i ddylanwad cyffredinol ar y Gwasanaeth, ond caiff hyn ei weld fel ystyriaeth ehangach ac ar wahân i'r Gymraeg, ac i raddau y tu allan i'r brîff gwirioneddol ar gyfer yr astudiaeth hon.

Mewn rhai achosion, yn sgil cyfyngiadau cyllidebol, mae rhagolygon gwirioneddol o leihau neu hyd yn oed roi'r gorau i ddarparu gwybodaeth brintiedig yn ddwyieithog bob amser, gyda symudiad tuag at ddarpariaeth un iaith (Saesneg yn bennaf) gyda dewis 'ar gais' i dderbyn yr wybodaeth mewn iaith arall (gan gynnwys y Gymraeg).

Lle bo'r Gymraeg yn elfen 'naturiol' a chynhenid o fywyd bob dydd (o fewn ein sampl ni, Gwynedd, Môn a Ceredigion) yna mae darpariaeth Gymraeg a gwasanaethau Cymraeg yn nodwedd amlwg. Yn wir, mewn rhai achosion, y Gymraeg yw'r brif gyfrwng cyflwyno.

Fodd bynnag, fel mae'n hymchwil ni wedi'i ddangos, gall fod perygl mewn awdurdodau o'r fath fod tybiaeth nad yw hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg yn ofynnol.

Mewn achosion eraill, mae deuoliaeth amlwg rhwng darpariaeth gyfrwng Cymraeg a darpariaeth ddwyieithog yn cael eu cynnig gan yr Awdurdod Lleol ar y naill law, a darpariaeth o'r fath yn cael ei gwrthod i raddau gan bobl ifanc sy'n siarad Cymraeg ar y llaw arall wrth i'r rheini ffafrio dewisiadau eu cyfoedion.

O'r naw awdurdod yr ymgynghorwyd â nhw, dywedodd y rheini i'r de a'r dwyrain eu bod nhw'n ei chael yn hynod anodd denu siaradwyr Cymraeg i swyddi gwag.

Awgrymir y dylid rhoi sylw i hyfforddi, recriwtio a chadw Gweithwyr Ieuenctid yng Nghymru trwy wella hyfforddiant a datblygiad staff a chynnwys elfennau o ddeall a gwerthfawrogi diwylliant Cymraeg a rhywfaint o ddealltwriaeth ieithyddol o'r Gymraeg, a hyfforddiant Cymraeg hyd yn oed.

Gan adlewyrchu'r dull cydweithredol ehangach o weithio gan Awdurdodau Lleol, a'r sector cyhoeddus yn gyffredinol, mae rhai newidiadau yn cael eu gweithredu o fewn y Gwasanaeth. Rydym wedi gweld tystiolaeth o symudiadau tuag at fwy o gydweithio ac o gynllunio cysylltiadau â sefydliadau allanol, ond mae'n dal i fod batrwm o weithio o fewn ffiniau daearyddol penodol ac o beidio ag edrych tuag allan ar yr hyn sy'n digwydd mewn awdurdodau eraill.

Awgrymir gwneud rhywfaint o waith i adnabod gwell ffyrdd o gydweithio, rhannu'r arferion gorau a mynd ati ar y cyd i ddiwallu anghenion pobl ifanc Cymru.

Derbynnir y gall fod agenda ar gyfer newid ac y gall ad-drefnu pellach o lywodraeth leol ddigwydd, a all yn ei dro ddylanwadu ar hyn, ond awgrymir bod gwell cydweithio a rhannu'r arferion gorau yn digwydd beth bynnag am unrhyw ad-drefnu arfaethedig neu debygol.

Mae canlyniadau'r ymgynghoriad hefyd yn dangos maes a nodweddir gan adnoddau cyfyngedig sy'n lleihau o hyd, gan lesteirio'n barhaus allu Darparwyr Gwasanaeth Ieuenctid i roi sylw i'r amrywiaeth cynyddol o angenhion ymysg pobl ifanc. Mae'r anghenion hyn yn lluosog, gyda Iechyd Meddwl Lefel Isel, Tlodi, Cynhwysiant a NEETS yn cael eu nodi fel meysydd blaenoriaeth sy'n gofyn am adnoddau.

Pryder mawr arall yw bod yr hinsawdd ariannol a pholisi presennol yn golygu bod carfan fawr o bobl ifanc yn cael eu gadael yn gynyddol heb ddim, neu fawr ddim, ymwneud â gwasanaethau cymorth ieuenctid perthnasol. Roedd un Awdurdod yn cyfeirio at y garfan hon fel "Rhinos" *(Registered Here in Name Only)*.

Yn yr hinsawdd presennol, caiff adnoddau cyfyngedig eu targedu at y mwyaf bregus, ac mae'r mwyaf abl a chymdeithasol symudol yn gallu cael at y cymorth a'r cyngor y mae arnyn nhw ei angen trwy ddulliau eraill. Fodd bynnag, mae canran gynyddol o'r boblogaeth a fyddai'n elw o hwb ac anogaeth ymarferol a allai wneud gwahaniaethau sylweddol iddyn nhw fel unigolion ac i gymdeithas yn gyffredinol. Mae hon yn gyfran bwysig o boblogaeth ieuenctid a gall eu dylanwad ar dwf neu ddirywiad yr iaith a'r gwerthfawrogiad ohoni fod yn sylweddol.

Mewn llawer o achosion mae nifer o awdurdodau lleol, wrth geisio ymdrin â chyfyngiadau cyllidebol ac arbedion effeithlonrwydd, wedi lleihau neu dorri cyllid i sefydliadau trydydd sector allanol, fel Mentrau Iaith a Grwpiau Datblygu Cymunedol lleol.

Yn anffodus, mewn rhai achosion, mae'r toriadau hyn yn cael eu gwneud gan adrannau ac unedau gwasanaeth sydd y 'tu allan' i'r Gwasanaeth Ieuenctid ei hun a all awgrymu diffyg ymgynghori mewnol ac o bosibl gweithio mewn 'seilos'.

Mae'n hadolygiad yn awgrymu hefyd fod yr Urdd yn allweddol yn y gwaith o gyflwyno gwasanaethau Cymraeg ledled Cymru (ac yn fwy fyth felly o safbwynt yr awdurdodau lleol mwy trefol).

Ymddengys fod y defnydd o gyfryngau digidol yn anghyson a thameidiog, ac mewn llawer o achosion braidd yn ddryslyd.

Mae sawl ymgais wedi eu gwneud i ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol fel Twitter a Facebook ond mewn llawer o achosion maen nhw'n ymddangos fel petaent yn docenistaidd gyda llawer o dudalennau'n cael eu gadael heb eu diweddaru am gyfnodau o hyd at bythefnos.

Mae pobl ifanc yn gwneud defnydd helaeth o gyfryngau cymdeithasol y dyddiau hyn ac, o'u defnyddio yn y ffordd iawn, gallent fod yn offer gwerthfawr iawn i'r Gwasanaeth i gynnal cysylltiad â phobl ifanc a'r gymuned ehangach. Gellir creu Grwpiau a Theuluoedd a thrwy hynny ddarparu cynulleidfa wedi'i thargedu ar gyfer darparu a chyfnewid gwybodaeth. Mae cyfleusterau cyfieithu elfennol yn bod o fewn y prif lwyfannau cyfryngau cymdeithasol a allai hwyluso 'sgyrsiau' amlieithog. Gallai llwyfannau o'r fath, o'u defnyddio'n effeithiol, ddarparu uniongyrchedd a sianelau cyfathrebu effeithiol.

Yn olaf, teimlwn fod yn rhaid inni hefyd wneud sylw am y trefniadau ariannu ar gyfer y Grant Gwaith Ieuenctid, gan ei bod, ar yr wyneb o leiaf, yn ymddangos fel petai'n sefyllfa ddryslyd a chymhleth yn yr ystyr bod y grant yn cael ei ddarparu trwy ddyraniad Grant Cynnal Refeniw, a bod gan awdurodau lleol wedyn y pŵer i benderfynu sut yn union y mae am gael ei ddefnyddio'n lleol.

Efallai y bydd angen herio'r dull hwn yn sylweddol os ydym am gyrraedd sefyllfa o gomisiynu gwasanaethau ar sail canlyniadau mesuradwy.

Roedd union brosesau Fformiwla Barnett, Cyllid Grant Cynnal Refeniw neu pwerau cyllid grant dewisol a/neu brosesau mewnol Llywodraeth Cymru y tu hwnt i derfynau'r brîff hwn. Ond o roi materion o'r fath i'r naill du, byddem yn awgrymu'r canlynol fel 'ateb sydyn' posibl o ran sicrhau gwell cysoni rhwng disgwyliadau, blaenoriaethau a gwasanaethau a'r Gymraeg yn dod yn weithgaredd mesuradwy a chyfrifiadwy o fewn y Gwasanaeth Ieuenctid:

- Cyllid grant ychwanegol i gael ei dynnu ymaith (yn rhannol neu'n gyfan gwbl) o'r dyraniad Grant Cynnal Refeniw a'i ddyfarnu'n uniongyrchol yn flynyddol i'r Gwasanaeth Ieuenctid o dan sylw ar sail Cynllun Busnes. Y Cynlluniau Busnes hyn fyddai'r rheini a ddefnyddir eisoes yn fewnol o fewn yr awdurdod ar gyfer trafodaethau cyllid blynyddol.
- O fewn Cynlluniau Busnes o'r fath, byddai angen i weithgareddau nad ydynt yn cael eu hariannu gan y Grant Cynnal Refeniw gael eu hadnabod a'u costio'n fanwl yn erbyn gweithgareddau sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r rhai a nodir o fewn y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Gwaith Ieuenctid yng Nghymru.

Fel cam cychwynnol byddai'n rhoi tystiolaeth glir ynghylch sut i ddefnyddio'r cyllid, pa gyfraniad y bydd yn ei wneud i'r Strategaeth, ac ar ben hyn byddai'n darparu trywydd archwilio cymharol hawdd o ran monitro a gwerthuso.

Yn bwysicach fodd bynnag gellid ei ddefnyddio hefyd fel modd o hwyluso'r gwaith o hyrwyddo'r Gymraeg ac o ddarparu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg.

- Gan weithio ar y sail fod y Gymraeg a'r defnydd o'r Gymraeg yn thema drawsbynciol o safbwynt y gwasanaethau a gynigir, byddai'n ofynnol i bob awdurdod nodi canran o'r cyllid y gwneir cais amdano a fyddai'n cael ei wario'n uniongyrchol ar hyrwyddo'r Gymraeg a/neu ddarpariaeth cyfrwng Cymru
- **NEU**

- Byddai canran benodol o'r cyllid sy'n cael ei ddyfarnu (ar sail data'r Cyfrifiad sy'n ymwneud â siaradwyr Cymraeg ee yng Nghaerdydd byddai'n 11%; Conwy 27% etc.) yn cael ei ddarparu'n unswydd ar gyfer hyrwyddo'r Gymraeg a/neu ddarpariaeth gyfrwng Cymraeg o fewn y gwasanaeth.

Y naill ffordd neu'r llall, gellid monitro a gwerthuso hyn yn effeithiol ac yn hawdd a byddai'n dechrau darparu rhywfaint o wybodaeth llinell sylfaen dros y tymor byr a allai fod yn sail ar gyfer cynllunio ar gyfer y tymor hirach.

Ychydig iawn o adnoddau ychwanegol a fyddai'n ofynnol er mwyn gweithredu fel hyn, ni fyddai'n gofyn am brosesau ychwanegol/newydd o adrodd a monitro a byddai'n darparu data cyfrifiadwy a mesuradwy ynghylch gweithgareddau Cymraeg.

# 7. Argymhellion

O linell sylfaen isel iawn o ddata a thystiolaeth a ddaliwyd rydym wedi ceisio cymryd golwg fwy cyfannol o'r gwasanaeth a chyflwynwn ein hargymhellion isod ar sail cyfuniad o'r fath.

**Prif Argymhelliad 1**

Y Tymor Byr

Sianelau cyfathrebu clir, canllawiau a chymorth gan Weinidogion Llywodraeth Cymru i gyrraedd gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a sicrhau eglurder o ran (a) y berthynas swyddogaethol rhyngddi a Strategaeth y Gymraeg, a (b) diffiniad clir beth fydd y Dangosyddion a'r Cerrig Milltir Cenedlaethol.

O ran y brîff penodol hwn, hyn wedyn i gael ei drosi'n gamau gweithredu ymarferol y gellir eu cyflawni o fewn oes y Strategaeth Genedlaethol bresennol ar gyfer Gwaith Ieuenctid yng Nghymru.

Y Tymor Byr / Tymor Canol

Canllawiau manylach gan Lywodraeth Cymru ynghylch sut mae cyflawni a gwireddu'r nodau a ddiffinnir o fewn y Strategaeth; a mwy o eglurder ar y mecanweithiau arfaethedig ar gyfer cyrraedd y nodau hyn a sicrhau gwell cydweithredu a dealltwriaeth rhwng y sefydliadau sector cyhoeddus yng Nghymru.

Dim ond ar ôl gwneud hynny gellir gosod strategaethau eraill, megis y Strategaeth Ieuenctid, yn eu cyd-destun a gweithredu arnynt mewn ffordd ymatebol a mesuradwy.

## Prif Argymhelliad 2

Y Tymor Byr

Bod y Grant Gwaith Ieuenctid, yn rhannol neu'n gyfan gwbl, yn cael ei dynnu ymaith o'r dyrant Grant Cynnal Refeniw i awdurdodau lleol, ac yn cael ei drin fel ffrwd ariannu ar wahân i gefnogi Gwaith Ieuenctid yn uniongyrchol.

Ceisiadau i gael eu cyflwyno'n flynyddol gan awdurdodau lleol unigol yn ffurf Cynllun Busnes (sydd eisoes yn bod fel rhan o'u prosesau rheoli mewnol) yn nodi gweithgareddau a gwasanaethau y maent yn dymuno eu rhoi ar waith, a'r rheini'n ategu ac yn cefnogi blaenoriaethau'r Strategaeth Genedlaethol bresennol ar gyfer Gwaith Ieuenctid yng Nghymru.

Gellir asesu ceisiadau wedyn ar sail eu diben a'u camau gweithredu a'u cyfraniad at y Strategaeth gyda swm gyfrannol o unrhyw gyllid a gymeradwyir yn cael ei ddyrannu'n uniongyrchol ar gyfer gweithgareddau Cymraeg (boed hynny ar sail fesul achos, sail fformiwlaidd neu gysylltiad uniongyrchol â data Cyfrifiad o nifer trigolion sy'n siarad Cymraeg).

Dros amser byddai hyn yn darparu data llinell sylfaenol yn nhermau cyrraedd nodau'r Strategaeth ei hun yn ogystal ag yn nhermau Gwaith Ieuenctid yn cyfrannu tuag at Strategaeth y Gymraeg.

Byddai data o'r fath yn amhrisiadwy wrth ddarparu sylfaen ar gyfer cynllunio at y dyfodol.

## Argymhellion Atodol

Mae'r argymhellion atodol canlynol yn seiliedig ar ein canfyddiadau a'n dealltwriaeth ac yn ymwneud â gwella'r gwasanaeth presennol i bobl ifanc Cymru, ac wrth wneud hynny, gyfrannu at Strategaeth y Gymraeg.

Archwiliad Gwaith Ieuenctid yng Ngymru — Tymor Byr/Canol

Ar y sail bod yr ymarferiad archwilio hwn am barhau credwn fod cyfle i ddal data ychwanegol ynglŷn â'r Gymraeg. Rydym eisoes wedi diffinio'r dybiaeth y dylid ystyried y defnydd o'r Gymraeg fel thema drawsbynciol ar draws holl swyddogaethau'r Gwasanaeth Ieuenctid yn hytrach na chael ei gweld fel swyddogaeth ynddi ei hun.

Ar sail y gred hon credwn y byddai dal gwybodaeth ychwanegol o fewn y broses Archwilio yn rhoi data gwerthfawr ac ychwanegol.

Caiff data ei gasglu ynghylch Cymwysterau Cydgyngor Trafod Telerau staff, caiff data ei gasglu ynglŷn â phobl ifanc yn ennill achrediadau cenedlaethol ac achrediadau lleol, caiff data ei gasglu ynglŷn â lleoliadau a phrosiectau Gwaith Ieuenctid.

Argymhellir gofyn cwestiwn atodol gyda'r cyfan o'r uchod ynghylch y ganran a/neu nifer a enilliwyd neu a gyflwynwyd trwy gyfrwng y Gymraeg.

Byddai hyn yn rhoi data mwy manwl ynglŷn â swyddogaethau penodol na'r hyn a ddelir ar hyn o bryd.

Hyfforddiant a Datblygiad Proffesiynol — Tymor Byr/Canol

Mewn nifer o'n hymgyngoriadau nodwyd bod denu ymgeiswyr dwyieithog am swyddi gwaith ieuenctid wedi profi i fod yn hynod o anodd.

Dangosodd ein hymgynghori hefyd fod, yn gyffredinol ledled Cymru, y ganran o weithwyr ieuenctid a gyflogir ar hyn o bryd o fewn y Gwasanaeth sy'n siarad Cymraeg yn rhugl yn gymharol isel.

Awgrymir bod cyfle i gychwyn deialog gyda sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach a darparwyr hyforddiant eraill penodol i archwilio ymarferoldeb cyflwyno agweddau o'r iaith a'r diwylliant Cymraeg o fewn cyrsiau academaidd a chyrsiau datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer gweithwyr ieuenctid.

Awgrymir yn y tymor byr bof gweithwyr ieuenctid a gyflogir ar hyn o bryd yn cael eu hannog i fynd i sesiynau hyfforddi, fel rhan o'u gwaith Cydgyngor Trafod Telerau / Datblygiad Proffesiynol Parhaus, lle mae'r iaith a'r diwylliant Cymraeg yn cael sylw. Yn y tymor byr, hyn i fod yn berthnasol i'r ardal ddaearyddol lle maent yn gweithio. Dros y tymor canol i'r tymor hirach, hyn i gael ei ymestyn i werthfawrogiad mwy cyffredinol o hanes a diwylliant Cymru fel gwlad ac fel cenedl.

Yn y tymor canol i'r tymor hir, awgrymir y dylai cyrsiau academaidd a gradd sy'n ymwneud â gwaith ieuenctid (o fewn Cymru) yn dyfodol gynnwys agweddau o hanes Cymru a'i diwylliant a'i hiaith.

<u>Defnydd o Gyfryngau Digidol Tymor Byr/Canol</u>

Fel y nodwyd, ymddengys fod y defnydd o gyfryngau digidol a chymdeithasol o fewn y Gwasanaeth Ieuenctid yng Nghymru yn anghyson ac yn dameidiog.

Argymhellir y dylid mynd i'r afael â hyn yn y tymor byr trwy annog awdurdodau unigol i archwilio ac adolygu eu defnydd o dechnoleg, ac er yn derbyd y gall fod rhai problemau posibl o ran systemau corfforaethol a Pholisïau Technoleg Gwybodaeth, dylid gwneud ymdrech i sicrhau bod pobl ifanc, o leiaf yn gallu cael at wybodaeth mewn fformat ac o natur sy'n addas ar gyfer eu hanghenion a'u hamgylchiadau.

Yn y tymor canol credwn y dylid ystyried creu 'brand' cenedlaethol a phorthol ar gyfer y Gwasanaeth Ieuenctid o fewn Cymru. Byddai hyn yn rhoi amgylchedd cyson a chyfarwydd i bobl ifanc gael at wybodaeth o'i fewn.

Oddi tan hwn byddai porthol gwybodaeth awdurdodau unigol, ond fel gyda chynlluniau eraill fel Busnes Cymru, byddai'n ofynnol mabwysiadu rhai safonau, protocolau a gweithdrefnau penodol.

Byddai hyn yn gwella'r sefyllfa bresennol yn fawr ac yn darparu llwyfan yn y dyfodol i sicrhau bod y defnydd o gyfryngau digigol yn gyson, yn berthnasol i'r gynulleidfa darged, ac yn gydnaws ac yn unol â'r canlyniadau a ddymunir gan y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Ieuenctid a Strategaeth y Gymraeg.

Rhannu Arferion Da Tymor Byr/Canol

Cyn belled ag yr ydym wedi cael penderfynu, ychydig iawn os o gwbl o rannu syniadau ac arferion da sy'n digwydd rhwng y gwahanol awdurdodau lleol.

Argymhellir mynd i'r afael â hyn trwy fwy o gydweithio rhwng awdurdodau gydag ystyriaeth yn cael ei roi ar y cychwyn i annog awdurdodau cyfagos i sefydlu 'clystyrau' i hwyluso gwell cyfnewid o wybodaeth ac arferion da.

Gweithio mewn Partneriaeth Tymor Byr/Canol

Unwaith eto, cyn belled ag rydym ni wedi gallu penderfynu, ychydig iawn, os o gwbl, o weithio mewn partneriaethau s'n digwydd rhwng awdurdodau unigol lle mae pobl ifanc yn byw mewn lleoliadau gerllaw ffiniau awdurdodau lleol. Mae hyn yr un mor berthnasol i awdurdodau gwledig a threfol. Byddai nifer o fanteision ymarferol yn cael eu hennill mewn sefyllfaoedd o'r fath pe bai awdurdodau cyfagos yn sefydlu perthynas weithio agosach. Gellid cyflawni hyn trwy'r dull 'clystyru'.

Wrth ymestyn y ddadl dros well gweithio mewn partneriaeth, byddem yn argymell sefydlu 'clwstwr' cenedlaethol (gweithgor) ac ymestyn yr aelodaeth i sefydliadau cenedlaethol gwirfoddol a'r trydydd sector. Byddai hyn yn gwella'n fawr y dealltwriaeth gyffredinol rhwng yr amrywiol aelodau ac yn darparu fforwm am sicrhau mwy o integreiddio ledled Cymru.

Boed ad-drefnu pellach o lywodraeth leol yng Nghymru am ddigwydd neu beidio, mae dadl dros yr uchod sydd yr un mor ddilys, ar hyn o bryd ag i'r dyfodol.

Rhannu Arbenigedd Tymor Canol/Hirach

Mae i hyn y potensial o gael ei weld fel cynnig dadleuol gan rai, ond byddai'n ymddangos i ni fel pobl o'r tu allan yn edrych i mewn fod pob awdurdod lleol braidd yn ynysig, ac yn benodol o safbwynt Gwasanaethau Ieuenctid, a'u bod yn ceisio rhoi sylw anghenion pawb ac felly'n gwanhau ac yn ymestyn adnoddau gwerthfawr i ddiwallu anghenion sy'n newid yn barhaus.

Awgrymwn fod cyfle i awdurdodau lleol hyrwyddo rhai agweddau o'u gwaith, neu eu harbenigedd mewnol, a thrwy'r 'clystyrau' a gynigiwyd, gynnig arbenigedd o'r fath i awdurdodau eraill ar sail ariannol neu gyfnewid.

Pe bai'n bosibl ariannu Gwasanaethau Ieuenctid ychwanegol trwy grant blynyddol uniongyrchol fel yr amlinellir uchod, yna gallai ein Hargymhellion Atodol o bosibl gael eu hariannu trwy fecanwaith hon.

# 8. Atodiad 1 – Holiadur

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cyfraniad Gwaith Ieuenctid Llywodraeth Leol i Strategaeth yr Iaith Gymraeg

Contribution of Local Authorities Youth Work Provision to The Welsh Language Strategy

**HOLIADUR**

**QUESTIONNAIRE**

Awdurdod/Authority

Cyfeiriad/Address

Enw/Name

Manylion Cyswllt/Contact Details

Swydd/Job Title

Adran/Department

Rôl Benodol/Specific Role

Faint o staff sy'n cael eu cyflogi o fewn y gwasanaeth ieuenctid
How many staff are employed within the Youth Service

Fel canran (neu nifer), faint o'r staff sydd ar y 'rheng flaen' ac yn cyfarfod a delio'n uniongyrchol gyda phobl ifanc
As a % (or number), how many are 'front line' staff meeting and directly dealing with young people

Beth ydi'r gyllideb flynyddol ar gyfer 2016/17
What is the annual budget for 2016/17

| |
|---|
| |

Beth yw cyfraniad Llywodraeth Cymru fel canran
What is the Welsh Government contribution as a %

| |
|---|
| |

Drwyddi draw, beth yw'r gwahaniaeth yn y gyllideb ers y llynedd
Overall, what is the change in the budget when compared to last year

| |
|---|
| |

A yw'r gwasanaeth yn rhan o arbedion effeithiolrwydd ac a yw hynny'n golygu y bydd yna ostyngiad mewn gwasanaethau/prosiectau ar y ddaear.
Is the service subject to efficiency savings resulting in a reduction in actual 'on the ground' provision/projects

| |
|---|
| |

A oes ganddo chi enghraifft penodol
Have you a specific example

| |
|---|
| |

Mewn un llinell, pam mae eich awdurdod yn darparu gwasanaethau ar gyfer pobl ifanc
In one line, why does your authority provide services for young people

| |
|---|
| |

Fel rhan o'r ddogfen Gwaith Ieuenctid yng Nghymru, Egwyddorion a Phwrpas, mae 5 colofn wedi cael eu hadnabod – sut yr ydych yn cynllunio i gofleidio a chyflawni yn erbyn y 5 colofn
Five pillars of youth work in Wales has been published as part of the Principles and Purposes document. How are you planning to embrace and deliver against these five pillars (being Educative, Expressive, Participative, Inclusive and Empowering)

| |
|---|
| |

A ydych yn ymwybodol o'r ddogfen Gwaith Ieuenctid a'r Gymraeg, Llawlyfr Dulliau ac Adnoddau a gyhoeddwyd i gyd fynd gyda'r ddogfen Egwyddorion a Phwrpas
Are you aware of the Welsh Language Youth Work Method and Resource Handbook that was published to coincide with the Principles and Purposes document

| |
|---|
| |

Os Ydwyf, a yw'n cael ei ddefnyddio fel rhan o gynllunio a chyflwyno gwasanaethau
If Yes, is it used as part of the planning and delivering of services

| |
|---|
| |

Sut yn union
How so

| |
|---|
| |

**Mae'r astudiaeth yma'n benodol yn edrych ar gyfraniad gwaith ieuenctid tuag at Strategaeth yr Iaith Gymraeg**
**This study is specifically about the contribution of Youth Work to the Welsh Language strategy.**

A oes ganddoch chi staff sy'n gallu siarad Cymraeg, ac yn arbennig mewn swyddi sydd gyda chysylltiad uniongyrchol gyda phobl ifanc
Do you have any Welsh speaking staff that are employed within the service, and specifically in roles that have direct contact with young people.

| |
|---|
| |

Faint
How many

| |
|---|
| |

Ydych chi'n ymwybodol/Oedda chi'n gwbod fod arian Llywodraeth Cymru tuag at waith ieuenctid gyda pherthynas uniongyrchol gyda'r Strategaeth Iaith
Were/are you aware that funding from Welsh Government towards Youth Work has a direct relationship with the Welsh Language strategy

| |
|---|
| |

Os Ydwyf, sut yn union mae'r iaith Gymraeg yn amlygu ei hun o fewn eich gwasanaeth
If Yes, how exactly does the Welsh language feature in service provision

| |
|---|
| |

Sut mae eich awdurdod yn cynllunio i sicrhau fod pobl ifanc gyda mynediad at wasanaethau neu adnoddau trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg
How does your authority plan for ensuring that young people have access to services and/or resources through the medium of Welsh

| |
|---|
| |

A yw'r iaith Gymraeg o fewn y gwasanaeth ieuenctid yn cael ei yrry gan eich Polisi Iaith corfforaethol neu gan anghenion pobl ifanc

Is the Welsh language within the youth service driven by your own corporate Welsh Language Policy or by the needs of young people

| |
|---|
| |

Os gan anghenion pobl ifanc, sut ydych chi'n darganfod yr anghenion a sut ydych chi'n dynodi adnoddau ac yn eu rheoli

If by the needs of young people, how do you identify that need, and resource and manage it.

| |
|---|
| |

Yn benodol, yn nhermau'r iaith Gymraeg, a ydych yn gweithio gyda sefydliadau eraill yn nhermau cynllunio a darparu gwasanaethau ar gyfer yr ifanc
Specifically in terms of the Welsh language, do you work with other organisations in planning and delivering youth services

| |
|---|
| |

Pa sefydliadau
Which organisations

| |
|---|
| |

Eto, yn nhermau'r iaith Gymraeg o fewn y gwasanaeth ieuenctid, a ydych yn gweld eich awdurdod gyda'r prif gyfrifoldeb i sicrhau fod yr iaith Gymraeg wedi'i thrwytho i mewn i wasanaethau ar gyfer pobl ifanc neu a ydych yn ddibynnol ar sefydliad arall yr ydych yn cyd-weithio a nhw i wneud hynny
Again in terms of Welsh language provision within the Youth service, do you see yourself as having the primary responsibility for ensuring that the Welsh language is embedded into services for young people or do you rely on other organisations that you work with to do this.

| |
|---|
| |

Pa sefydliad(au)
Which organisations

Sut yw'r ffordd orau o ddisgrifio'r ffordd yr ydych yn darparu gwasanaethau i bobl ifanc
Darpariaeth uniongyrchol
Gweithio mewn partneriaeth
Cynnig arian i gyrff allannol
Cynnig arian i brosiectau penodol

How would you best describe the way in which you provide youth services –
Direct provision
Partnership working
Provide funding to external bodies
Fund specific projects

Ar sail yr ateb uchod, sut yr ydych chi'n mesur/asesu effaith y gwasanaeth
How do you measure/assess the impact of the service (based on the answer to the above)

Sut yr ydych chi'n mesur/asesu effaith y gwasanaeth yn nhermau'r iaith Gymraeg
How do you measure/assess the impact of the service in relation to the Welsh language

Yn eich barn chi, beth yw'r rhwystr mwyaf i'w oresgyn mewnm perthynas â chynnig gwasanaeth sy'n gwbl gynhwysol i bobl ifanc gwasanaeth wedi llwyddo i'w wneud
In your opinion, what is the single most difficult barrier to overcome in providing a fully inclusive service for young people

Sut yw'r ffordd orau o ddisgrifio'r ffordd yr ydych yn darparu gwasanaethau i bobl ifanc

How would best describe the way in which you provide youth services –

| |
|---|
| |

A yw'n bosibl i chi gynnig enghraifft o ymarfer da – gall hyn fod yn weithgaredd penodol, Clwb Ieuenctid penodol neu brosiect penodol
Can you provide an example of good practice that we could cite – this can be an individual activity, a specific Youth Club or a specific project.

| |
|---|
| |

A hoffech wneud unrhyw sylw pellach ynglŷn â'r cysylltiad rhwng eich gwasanaeth â'r Strategaeth Iaith
Would you like to make any additional comment on the relationship between your service and the Language Strategy

| |
|---|
| |

**Diolch yn Fawr/Many thanks**

# 9. Atodiad 2 – Holiadur Atodol

**Cyfraniad Gwaith Ieuenctid Awdurdodau Lleol i Strategaeth yr Iaith Gymraeg - Contribution of Local Authorities Youth Work Provision to the Welsh Language Strategy**
**Contract: YWS/WL/001**
**Local Authority** ☐ Completed By: ☐

**Please enter text in the highlighted box(es) for each question that appears below** Today's Date ☐

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| What is the base budget for the 2016/17 Youth Service | ☐ | | | | |
| Overall, what percentage increase/reduction has there been in the 2016/17 Youth Service Budget compared to 2015/16? | ☐ | | | | |
| Will this result in a reduction in front line staff delivering services to young people? people? | Yes ☐ | No ☐ | | | |
| Will this result in a reduction in actual services to young people? | Yes ☐ | No ☐ | | | |
| Will this result in a reduction in actual projects for young people? | Yes ☐ | No ☐ | | | |
| What best describes the way in which you provide services for young people? | Directly ☐ | In Partnership ☐ | Funding external bodies ☐ | Fund specific projects ☐ | A mix of methods ☐ |
| Who are the key external organisations that you are reliant upon in order to provide services to young people? | ☐ | | | | |

What is the single most important identified need amongst your younger population that drives your service? ☐

In terms of the future of the service, are you looking at:

| Continuing as at present | Considering alternative delivery models | Working on alternative delivery models | Implementing a different delivery model |
|---|---|---|---|
| ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

Do you currently provide any youth services to young people exclusively through the medium of Welsh?

| Yes | No | Partly |
|---|---|---|
| ☐ | ☐ | ☐ |

What drives your Welsh language provision within the youth service?

| Corporate Welsh Language Policy | Needs of young people | Result of consultation | Combination of all |
|---|---|---|---|
| ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

Are you aware that funding from Welsh Government in support of youth work has a direct relationship with the Welsh Language Strategy

| Yes | No | Partly |
|---|---|---|
| ☐ | ☐ | ☐ |

Can you please provide an example of activity or a specific project that could be used for further case study work ☐

Many thanks for your assistance. Once completed, can you please return it at your earliest convenience to alun@maneg.co.uk

(A Welsh language version of this questionnaire is readily available, if you would prefer a Welsh version, please request a copy.)

# 10. Cyflwyniad

Cyflwynir isod sleidiau a ddefnyddiwyd mewn cyflwyniad yng Nghaerdydd ar y 13eg o Fai 2016 – nid yw'r sleidiau yma wedi'u cyfieithu

Llywodraeth Cymru
Welsh Government


Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Contribution of Local Authorities Youth Work Provision to The Welsh Language Strategy

## BORE DA – GOOD MORNING

Alun Roberts
(Marc Roberts)


maneg


Contribution of Local Authorities Youth Work Provision to The Welsh Language Strategy
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
The Brief
• Review of partnership working
• Review of the contribution of Young People
• Consultation with 8 Senior Youth Workers
• Review of the Youth Work Audit (2014 – 2015)
Timescale: 1st February – 31st March 2016

## Contribution of Local Authorities Youth Work Provision to The Welsh Language Strategy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government


## So What Happened?



Contribution of Local Authorities Youth Work Provision to The Welsh Language Strategy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## So what did we find out?





*Source: Stats Wales (2011 Census Data)*

*Note: Young People in relation to this study are those under the age of 25. Unfortunately, Stats Wales data cannot be used to identify that particular age range, the best possible match are those identified as being under 29 years of age*

Contribution of Local Authorities Youth Work Provision to The Welsh Language Strategy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## So what did we find out?





*Source: Youth Work in Wales Audit (2014-2015)*


## Contribution of Local Authorities Youth Work Provision to The Welsh Language Strategy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# So what did we find out?




*Source: Stats Wales (2011 Census Data)*





*Source: Youth Work in Wales Audit (2014-2015)*

Contribution of Local Authorities Youth Work Provision to The Welsh Language Strategy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## So what did we find out?





*Source: Questionnaire Analysis*

Contribution of Local Authorities Youth Work Provision to The Welsh Language Strategy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## So what did we find out?





*Source: Questionnaire Analysis/Youth Audit*

Contribution of Local Authorities Youth Work Provision to The Welsh Language Strategy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## So what did we find out?




*Source: Questionnaire Analysis*

Contribution of Local Authorities Youth Work Provision to The Welsh Language Strategy


Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Headline Finding -

........ the greatest driver in relation to promoting the Welsh language within the Youth Service currently is the Local Authorities' own Welsh Language Policies/Schemes and not the Welsh Language Strategy itself.

Review of Corporate Plans

Review of Digital Media


Contribution of Local Authorities Youth Work Provision to The Welsh Language Strategy
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Corporate Plans
Gwynedd – clear and evident priority to both young people and the Welsh language
Pembrokeshire – Single Integrated Plan places great emphasis on children and young people – no reference to the Welsh language generally or specifically in terms of young people
Vale of Glamorgan – single most evident plan to reference the Well Being of Future Generation Act in relation to the Welsh language and Culture; also references the National Youth Strategy and the National Outcomes Framework in terms of Youth Work.

Contribution of Local Authorities Youth Work Provision to The Welsh Language Strategy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Digital Media


Based on the nine Local Authorities that were reviewed, the provision of information on line in relation to Youth Services varies from authority to authority, in terms of ease of access, prominence and detail provided.

With some exceptions, the visual appearance, layout and content of Web sites are very corporate and 'official' looking

Bilingualism varies somewhat, although in most instances there are mirror sites.

What is most apparent from our review is that, with one exception, we found nothing specifically about the Welsh Language and Culture

There appears to be some attempts at social media, but these appear somewhat tokenistic.


Contribution of Local Authorities Youth Work Provision to The Welsh Language Strategy
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Digital Media
Gwynedd
Ni
gwybodaeth a chyngor i blant, pobl ifanc a theuluoedd
16-25 OED
Teuluoedd
Vale of Glamorgan Council
Youth Service
SPROUT
LIKE BOOKS?
LOVE
READING POWER
VIRTUAL BOOK CLUB
FEATURES
NEWS&VIEWS
WHAT'S BEING SAID?

Contribution of Local Authorities Youth Work Provision to The Welsh Language Strategy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Where are we?


Youth Services are under considerable pressures


No real data exists, only information exists in relation to the Welsh Language

Local Authorities are somewhat planning and delivering in isolation

Existing Strategies do no set out and/or clarify any form of measurable outcomes

Meeting the requirements of the Well Being and Future Generations Act.



Contribution of Local Authorities Youth Work Provision to The Welsh Language Strategy
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015
A living language: a language for living
Welsh Language Strategy 2012–17
The National Youth Work Strategy for Wales 2014–2018
Supporting young people to reach their potential and live fulfilled lives


Contribution of Local Authorities Youth Work Provision to The Welsh Language Strategy
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015
A living language: a language for living
Welsh Language Strategy 2012–17
The National Youth Work Strategy for Wales 2014–2018
Supporting young people to reach their potential and live fulfilled lives

Contribution of Local Authorities Youth Work Provision to The Welsh Language Strategy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## The 7 Pillars of the Well Being of Future Generations (Wales) Act 2015




The Act makes specific reference to National Indicators and Milestones, and defines an indicator as one which –

- must be expressed as a value or characteristic that can be measured quantitatively, or qualitatively measured against a particular outcome.

Contribution of Local Authorities Youth Work Provision to The Welsh Language Strategy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Headline Recommendation 1

........ Clear communication channels, guidance and support from Welsh Assembly Ministers in meeting the requirements of the Well Being of Future Generations Act and provision of clarity in relation to (a) the functional relationship between it and the Welsh Language Strategy, and (b) a clear definition what are to be the National Indicators and Milestones.

.......... In terms of this particular brief, this then to be translated into deliverable actions that can be achieved within the lifespan of the current National Youth Work Strategy for Wales and subsequent future Strategies.

Contribution of Local Authorities Youth Work Provision to The Welsh Language Strategy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Headline Recommendation 2

........ That the Youth Work Grant, partly or wholly, be removed from the RSG allocation to local authorities and dealt with as a separate funding stream directly in support of Youth Work.

........ Applications to be submitted annually by individual local authorities in the form of a Business Plan identifying activities and services that they wish to put in place that are complementary to and support the priorities of the current National Youth Strategy for Wales.

.......... Applications to be assessed as to purpose, actions and contribution to the Strategy with an apportioned sum of any funding approved being directly allocated to Welsh language activities.

Contribution of Local Authorities Youth Work Provision to The Welsh Language Strategy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Supplementary Recommendations

…….. Capture additional and more specific data in relation to the Welsh Language as part of the Youth Work Audit in Wales

…….. Take actions and address Welsh Language and Culture within the training and development of Youth Workers

…….. Encourage Local Authorities to make better and more consistent use of Digital Media. Longer term consider National Branding for the Service.